



Cynnwys

	Tudalen
1. Rhagair	1-3
2. Strwythur Rheoli	4
3. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd	5-7
4. Adolygiad o'r Flwyddyn	
4.1 Gweinyddu Pensiynau	8-14
4.2 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru	15-16
4.3 Prisiad Actiwari	16
4.4 Datganiad Strategaeth Cyllido	16
4.5 Datganiad Strategaeth Buddsoddi	17
4.6 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17)	17
5. Tueddiadau Diweddar	18
6. Adroddiad Rheoli	
6.1 Gweinyddiaeth y Cynllun	19-21
6.2 Sefyllfa Actiwaraid	22-23
6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw	23-24
6.4 Pwerau Buddsoddi	25
6.5 Rheoli Buddsoddiadau	25-26
6.6 Perfformiad Buddsoddi	26-28
6.7 Datganiad Strategaeth Cyllido	28
6.8 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth	28
6. Ystadegau Aelodaeth	29
7. Y Cyfrifon – yn amodol ar archwiliad	
Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o'r Cyfrifon	30
Datganiad o Gyfrifon 2017-2018	31-32
Nodiadau i'r Cyfrifon 2017-2018	33-64

I. Rhagair

Croeso i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Er gwaethaf blwyddyn heriol, mae'r Gronfa wedi dod drwyddi gyda dychweliadau cadarnhaol yn 2017/18, gan adeiladu eto ar ein lefel ariannu gymharol gadarn.

Yn ystod 2017/18, bu cynnydd 10.8% i 18,090 o aelodau'n cyfrannu i'r cynllun; tra ddaru'r nifer pensiynwyr yn y cynllun gynyddu 4.3% i 9,199. Yn y cyfamser, bu'r farchnad stoc yn heriol yn 2017/18, ond mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi parhau i adeiladu ar berfformiad buddsoddi rhagorol 2016/17.

Cafwyd dychweliadau buddsoddi o 3% am y flwyddyn gan asedau'r Gronfa, yn adlewyrchu marchnadoedd gwannach o'i gymharu â'r 22% dychwelwyd gan y Gronfa'r llynedd, ond yn codi cyfanswm gwerth y Gronfa i £1,938m ar 31 Mawrth 2018. Roedd hyn yn gynydd o £56.4m o'r flwyddyn flaenorol, ac wedyn tyfodd gwerth y Gronfa i fwy na £ 2 biliwn yn ystod chwarter cyntaf 2018/19.

Mae'r twf parhaus mewn gwerth asedau yn parhau'n galonogol, yn enwedig gan fod hyn yn adeiladu ar sefyllfa gymharol ffafriol y Gronfa, roedd wedi'i ariannu 91% yn y prisiad teirblynyddol 2016 (neu wedi'i ariannu 109%, os defnyddir rhagdybiaethau safonol "tebygwrth-debyg" Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn hytrach nac ein rhagdybiaethau mwy darbodus ni ein hunain).

Mae paratoadau yn dechrau rwan ar gyfer y prisiad actiwaraidd nesaf ar 31 Mawrth 2019. Er bod sefyllfa cyflogwyr unigol yn ein Gronfa yn wahanol, yn gyffredinol dylai cryfder y Gronfa ganiatáu i ni gymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfrannu cyflogwyr fydd yn effeithiol o Ebrill 2020. Yn amlwg, bydd isafu'r cyfraddau cyfrannu yn nod unwaith eto, o ystyried y gwasgfa ar wariant cyhoeddus (Llywodraeth yn ariannu awdurdodau lleol, yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol sydd yn derbyn grantiau llai).

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth bellach am berfformiad buddsoddi, ac ar weithgareddau a rheolaeth y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am eich Cronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ni geisio gwella ansawdd ac addasrwydd y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad, felly croesewir adborth. Am ragor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd, neu er mwyn rhoi eich barn ar yr adroddiad hwn, darperir manylion cyswllt swyddogion perthnasol ar dudalen 4 yr adroddiad.

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn cael ei adolygu, ond ar hyn o bryd mae'n parhau i ganolbwyntio ar asedau twf disgwylir iddynt ennill dychweliadau mwy deniadol dros y tymor hwy na buddsoddiadau risg is. Llynedd, datblygodd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd a Bwrdd Pensiwn y Gronfa, gyda Hymans Robertson (ymgyngorwyr buddsoddi'r Gronfa) egwyddorion buddsoddi cyfrifol, gan ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a

llywodraethu. Ar 8 Tachwedd 2018, bydd y Pwyllgor yn trafod Datganiad Strategaeth Buddsoddi ddiwygiedig, gan gynnwys yr egwyddorion buddsoddi cyfrifol cytunedig.

Mae pŵlio buddsoddiadau yn parhau i fod yn ddarn sylweddol o waith i'r Gronfa Bensiwn, ynghyd â'r 7 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall yng Nghymru. Mae'r 8 gronfa wedi bod yn gweithio'n wirfoddol gyda'u gilydd ers sawl blwyddyn i adnabod meysydd o gydweithio posibl, a sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ffurfiol ym mis Mawrth 2017.

Pan ddaru Cydbwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth gyfarfod gyda grym gweithredol, etholwyd y Cynghorydd Stephen Churchman yn Gadeirydd cyntaf y Cydbwyllgor. Yn ystod 2017/18 ddaru'r Bartneriaeth gaffael llwyfan fydd yn caniatáu i'r 8 cronfa Cymreig weithredu eu strategaethau buddsoddi, gan benodi Link Asset Services fel gweithredwr y llwyfan, mewn partneriaeth â Russell Investments fel rheolwr buddsoddi.

Mae gan yr 8 cronfa Cymreig un contract ar y cyd eisoes, gyda BlackRock ar gyfer eu holl bortffolios ecwiti goddefol. Nawr bod yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wedi awdurdodi Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (ACS, math o gronfa dryloyw o ran treth) Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae ymdrechion ar droed i sefydlu dwy is-gronfa wedi'u pŵlio ar gyfer ecwiti byd-eang a reolir yn weithredol.

Bydd is-gronfeydd y Bartneriaeth yn disodli mandadau ar wahân y cronfeydd unigol gyda rheolwyr buddsoddi. Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn bwriadu trosglwyddo asedau (ecwiti byd-eang) i'r is-gronfeydd hyn yn ystod 2018/19, er mwyn gwireddu arbedion pellach o ffioedd drwy pŵlio, tra'n dal i gadw perchnogaeth a chyfrifoldeb am fuddsoddiadau Gwynedd ei hun.

2017/18 oedd yr ail flwyddyn o dymor 2 flynedd y Cynghorydd Stephen Churchman fel Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd. Yn ystod 2016 - 2018, cynyddodd cyfrifoldebau'r rôl ar ôl sefydlu'r Bwrdd Pensiwn a Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Hoffwn ddiolch i Steve am ei arweinyddiaeth, ei waith diflino ar amser heriol ac arloesol, ac am ei waith fel Cadeirydd Cyd-bwyllgor y Bartneriaeth, lle'r oedd yn cynrychioli Cronfa Gwynedd gydag urddas.

Ar 19 Mehefin 2018, etholodd y Pwyllgor Pensiynau'r Cynghorydd John Pughe Roberts fel eu Cadeirydd newydd ar gyfer 2018/19, ac mae John wedi dechrau ei ddyletswyddau gydag egni a phenderfyniad. Yn y cyfamser, mae Mr Anthony Deakin wedi cwblhau blwyddyn gyntaf ei dymor 2 flynedd yn cadeirio Bwrdd Pensiwn Gwynedd yn rhagweithiol ac yn ddifrifol (mae adroddiad y Bwrdd ar gyfer 2017/18 wedi'i gynnwys yma ar dudalen 5).

Mae staff y Gronfa wedi bod yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu lefel uchel o wasanaeth, ac yr wyf yn falch iawn o ddweud bod lefelau perfformiad gweinyddu pensiynau Gwynedd yn 2017/18 yn gyffredinol yn well neu'n sefydlog o'u cymharu â 2016/17. Ni fyddai'r canlyniadau ardderchog hyn yn bosibl heb ymrwymiad a gwaith caled y

tîm gweinyddu pensiynau. Ar ran yr holl Gadeiryddion uchod, hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i staff pensiynau Gwynedd, a'u cydweithwyr yn y tîm buddsoddiadau, am eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal â monitro a llywio perfformiad buddsoddiad cadarnhaol, bydd y Pwyllgor Pensiynau yn parhau i sicrhau bod gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu cynnal, tra bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn craffu'n gydwybodol a darparu chymorth defnyddiol i reolwyr y cynllun. Hoffem ddiolch yn fawr i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd am eu cyfraniad a'u hymroddiad gwerthfawr yn ystod 2017/18, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r holl aelodau dros y flwyddyn i ddod. Mae manylion llawn aelodaeth y Pwyllgor a'r Bwrdd i'w gweld ar dudalen 4.

Hoffem ddiolch hefyd i gwmnïau rheolwr buddsoddi'r Gronfa, ein ymgynghorwyr allanol, a phartneriaid eraill am eu gwaith caled a'u cyflawniadau dros y deuddeg mis, gan gefnogi rheolwyr a buddiolwyr y cynllun.

Rwy'n gobeithio bydd yr adroddiad canlynol yn ddefnyddiol i chi. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth yn ystod 2017/18, ac edrychaf ymlaen at barhau â'n perthynas waith adeiladol yn 2018/19.



Dafydd L. Edwards
Pennaeth Cyllid

2. Strwythur Rheoli

Awdurdod Gweinyddu

Cyngor Gwynedd

Pwyllgor Pensiynau (hyd at 7fed o Fai 2017)

Y Cyngorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Peredur Jenkins (Is-gadeirydd)

Y diweddar Cyngorydd Trefor Edwards

Y Cyngorydd Simon Glyn

Y Cyngorydd W. Tudor Owen

Y Cyngorydd John Pughe Roberts

Y Cyngorydd Glyn Thomas

Y Cyngorydd H. Eifion Jones (Aelod Cyfetholedig)

Y Cyngorydd Margaret Lyon (Aelod Cyfetholedig)

Pwyllgor Pensiynau (8fed o Fai 2017

ymlaen)

Y Cyngorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Peredur Jenkins (Is-gadeirydd)

Y Cyngorydd Simon Glyn

Y Cyngorydd John Pughe Roberts

Y Cyngorydd John Brynmor Hughes

Y Cyngorydd Aled Wyn Jones

Y Cyngorydd Peter Read

Y Cyngorydd David Cowans (Aelod Cyfetholedig)

Y Cyngorydd John Griffith (Aelod Cyfetholedig)

Bwrdd Pensiynau

Cynrychiolwyr Cyflogwyr

Mr Anthony Deakin (Cartrefi Conwy)

Mr Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Councillor Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Cynrychiolwyr Aelodau

Mr Osian Richards

Mrs Sharon Warnes

Mr H. Eifion Jones (ymuno 8fed o Fai 2017)

Pennaeth Cyllid ("Swyddog Adran I51")

Mr Dafydd L. Edwards

Ymgynghorydd

Mr Paul Potter (Hymans Robertson)

Rheolwyr Buddsoddi

BlackRock

Fidelity International

Insight Investment

Lothbury

Partners Group

Threadneedle

UBS Global Asset Management Cyf.

Veritas

Ceidwad

Northern Trust

Actiwari

Hymans Robertson

Banc

Barclays Bank plc

Archwilwyr

Swyddfa Archwilio Cymru

Manylion Cyswllt

Gellir holi ymhellach a derbyn gwybodaeth fanylach ynglŷn â:

- gweithrediad Cynllun Pensiwn Gwynedd trwy gysylltu â:

Mr Nicholas Hopkins,

Rheolwr Pensiynau,

Cyngor Gwynedd,

Swyddfa'r Cyngor,

Caernarfon,

Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679612



nicholasedwardhopkins@gwynedd.llyw.cymru

- gweithgareddau buddsoddi a chyfrifeg y Gronfa trwy gysylltu â:

Mrs Caroline Roberts,

Rheolwr Buddsoddi,

Adran Cyllid,

Cyngor Gwynedd,

Swyddfa'r Cyngor,

Caernarfon,

Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679128



carolineroberts@gwynedd.llyw.cymru

Safle We'r Gronfa

www.cronfabensiwnwynedd.org.uk

3. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2017/18 (y flwyddyn at 31 Gorffennaf 2018)

Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018, mae'r Bwrdd wedi cwrdd pedair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel sylwedydd i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac mae sawl aelod o'r Bwrdd wedi cymryd y rôl hon yn eu tro, er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle bu'n atebol, gyda swyddogion, am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Mae barn ac argymhellion y Bwrdd yn cael eu cyflwyno am ystyriaeth y Pwyllgor.

Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol (Cyngor Gwynedd) i:

- i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLIL, a
- ii. sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Felly, corff monitro, cynorthwyo ac adolygu yw'r Bwrdd, nid corff penderfynu / rheoli.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan gylch gorchwyl a gytunwyd gan Gyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5^{ed} o Fawrth 2015).

Mae'n cael cefnogaeth gan nifer o swyddogion, gan gynnwys Swyddog Cefnogi Aelodau, y Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Buddsoddi, y Rheolwr Pensiynau, ac Uwch Swyddog Cyfathrebu'r Gronfa.

Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i'r staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r prisiad actiwaraid teirblynyddol yn cymryd blaenoriaeth, ynghyd â pharhad y prosiect pŵlio buddsoddiadau. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

Presenoldeb

	23/10/2017	05/12/2017	15/02/2018	12/04/2018	16/07/2018
Anthony Deakin	√	√	√	√	√
Cllr. Aled Evans	√	X	√	√	X
Hywel Eifion Jones	√	√	√	√	√
Osian Richards	√	√	√	√	√
Huw Trainor	√	√	X	√	√
Sharon Warnes	√	√	X	√	√

Cynllun Gwaith

Yn unol â'r cynllun gwaith, fel y penderfynwyd ac a ddiwygiwyd gan aelodau'r Bwrdd, mewn ymgynghoriad â swyddogion y Gronfa, derbyniwyd a adolygwyd adroddiadau ar y materion canlynol:

- Cyfarwydddeb Marchnadoedd Offerynnau Ariannol II (MiFID II)
- Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2016/17
- Delio â chwynion
- Y Gofrestr Risg
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Cyfathrebu â Chyflogwyr - Cyflwyno data yn amserol ac yn gywir
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn

Wrth adolygu'r adroddiadau uchod rhoddwyd mewnbyn gan y Bwrdd ar datganiadau cyhoeddus megis y Gofrestr Risg a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod blynyddol y Gronfa ym mis Medi 2017, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol, o'i gymharu â chronfeydd CPLIL eraill.

Cynhaliwyd cyflwyniad ar Fuddsoddiad Cyfrifol ar 18 Ionawr 2018 gan Simon Jones a Paul Potter o Hymans Robertson, actiwari'r Gronfa. Mynychwyd y sesiwn gan aelodau'r bwrdd a'r pwyllgor. Yn dilyn y sesiwn cyfrannodd Aelodau'r Bwrdd ddatblygu egwyddorion buddsoddi cyfrifol sydd wedi eu diwygiwyd yn briodol, a chefnogaeth i'w cynnwys yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi ddiwygiedig a fydd yn cael ei gynhyrchu yn nes ymlaen yn 2018.

Cwblhaodd y Bwrdd arolwg trefn lywodraethol gwasanaeth cyhoeddus y Rheolydd Pensiynau a oedd yn gymysgedd o gwestiynau ffeithiol ac arolwg barn.

Bydd y cynllun gwaith ar gyfer 2018/19 yn cynnwys:

- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Diweddariad ar Weinyddu Pensiwn
- Diweddariad ar Berfformiad Buddsoddi'r Gronfa
- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn 2017/18
- Cyfathrebu ag Aelodau'r Cynllun
- Diweddariad Llywodraethu / Materion o Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun

Hyfforddiant

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y CPLIL a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Buddsoddi, y Rheolwr Pensiynau, ac Uwch Swyddog Cyfathrebu'r Gronfa.

Mae'n bleser medru adrodd fod pob aelod o'r Bwrdd bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol ("LGPS Fundamentals") a drefnwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ("LGA").

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd / cyflwyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithdy Rhwydwaith Pensiynau CIPFA - Hydref 2017
- Seminar yr Hydref Bwrdd Pensiwn Lleol Barnett Waddingham a CIPFA - Tachwedd 2017
- Seminar Gwanwyn Bwrdd Pensiwn Lleol Barnett Waddingham a CIPFA - Chwefror 2018
- Cyfarfod Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Barnett Waddingham a CIPFA – Mehefin 2018

Diolch

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch ei gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r rolau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

Anthony Deakin
Cadeirydd

4. Adolygiad o'r Flwyddyn

4.1 Gweinyddu Pensiynau

Cyffredinol a Chyflwyniad

Unwaith eto, bu'n flwyddyn brysur arall o fewn gweinyddiaeth pensiynau Llywodraeth Leol, ac eto eleni hoffwn ddiolch i'r holl gyflogwyr am eu gwaith caled parhaus i sicrhau bod data'n cael ei brosesu mor gyflym ac mor gywir â phosib i'r Adran Bensiynau. Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i'r staff pensiynau eu hunain am eu holl gefnogaeth ac am eu gwaith caled a diwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd y dyddiad ar gyfer anfon adroddiadau diwedd flwyddyn ei osod yn 30 Ebrill 2018, gyda'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cadw at yr amserlen, fodd bynnag, roedd nifer o gyflogwyr ymhell y tu hwnt i'r dyddiad hwn yn anfon y wybodaeth i ni, ac mae hyn wedyn wedi cael effaith ar amserlen yr Adran Bensiynau i ddiweddarar cofnodion yr aelodau ar gyfer cynhyrchu'r datganiadau buddion blynyddol. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i bwysleisio eto bwysigrwydd sicrhau bod eich data yn cael ei phrosesu mor gywir ac mor effeithlon â phosib. Dylid rhoi sylw arbennig i'r hyn mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi'i nodi mewn perthynas â data anghywir a'r posibilrwydd o ddirwyon neu daliadau yn cael eu cyflwyno i unrhyw gyflogwr / cronfa nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn. Eleni eto, mae gweinyddiaeth pensiwn wedi parhau i addasu i'r newidiadau a chymhlethdod cynyddol yn dilyn cyflwyno'r cynllun Cyfartaledd Gyrfa, a newidiadau rheoleiddiol.

Mae staff yr Adran Bensiynau yn parhau i dderbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn parhau i fod yn gyffredol, ac unwaith eto eleni, mae aelodau staff wedi mynychu cyrsiau amrywiol trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r meddalwedd pensiwn a ddarperir gan Aquila Heywood yn cael ei diweddarar'n barhaus wrth i'r ddeddfwriaeth newid.

Partneriaeth Cymru Gyfan

Mae cydweithio gweinyddol yn parhau ar sail Cymru gyfan gyda nifer o daflenni, cylchlythyrau, a datganiadau buddion blynyddol wedi cael eu cynhyrchu a'u hanfon allan trwy gyfrwng y Partneriaeth Cymru Gyfan. Unwaith eto, mae Gwynedd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ddylunio a chyfieithu y rhan fwyaf o'r dogfennau hyn.

Rheoli Perfformiad

Mae'r Gronfa Bensiwn yn ymroddedig i wella ei ddarpariaeth o wasanaethau a bydd yn adolygu'r mesurau sydd mewn lle i fonitro perfformiad yn flynyddol er mwyn adnabod lle gellir gwneud gwelliannau. Ble mae meysydd o berfformiad gwael yn cael eu nodi, bydd yr Adran Bensiynau yn adolygu'r rhesymau dros berfformiad gwael a rhoi prosesau priodol ar waith i geisio gwella'r gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r adran wedi cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r cyflogwyr perthnasol ynglŷn ag amseroldeb darparu data ar gyfer aelodau sy'n ymddeol neu sy'n gadael yn gynnar, ac mae wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr mwyaf y Gronfa i geisio cyflwyno'r meddalwedd i-Connect i alluogi data gael eu trosglwyddo i'r Gronfa yn fisol yn hytrach na diwedd y flwyddyn fel yn y broses bresennol. Bydd hyn yn lleihau'r angen am waith papur a gohebiaeth e-bost fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar ddiwedd y flwyddyn a bydd yn gwella ansawdd y data a dderbyniwyd, gan y bydd yn cael ei ddarparu drwy

ddiweddariad amser real. **Bydd hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r safon data y mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn awr yn mynnu arnynt.**

Cyf.	Gweithgareddau Craidd	Perfformiad yn 2016/2017		Perfformiad yn 2017/2018	
		Nifer yr achosion	Dyddiau cyfartalog a gymerwyd	Nifer yr achosion	Dyddiau cyfartalog a gymerwyd
CD9.01	Nifer y dyddiau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn cynnig trosglwyddiad i mewn	107	18.9	198	15.3
CD9.02	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn rhoi manylion trosglwyddiad allan	123	15.8	160	6.1
CD9.03	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion - dyfyniad	1438	6.5	1469	4.3
CD9.04	Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddioniadau – gwir werth	704	3.1	572	3.2
CD9.05	Cyfartaledd nifer o ddyddiau a gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod / actif / gohiriedig /pensiynwyr	23	9.1	21	4.5
CD9.06	Cyfartaledd nifer o ddyddiau a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion dibynyddion	222	8.1	242	9.0
CD9.07	Prosesu a thalu Pensiynau misol ar amser (ffigwr yn seiliedig ar nifer o daliadau yn Fis 12 bob blwyddyn)	9,459	100%	9,780	100%
CD9.08	Nifer yr achosion lle roedd angen taliadau diwygiedig o ganlyniad i gamgymeriad yn yr adran	3	N/A	3	N/A

Newidiadau mewn deddfwriaeth y CPLIL yn ystod 2017/18

Rheoliadau diwygio newydd

Gwnaed Rheoliadau CPLIL (Diwygio) 2018 ar 17 Ebrill 2018 a daeth i rym ar 14 Mai 2018. Mae'r rheoliadau yn diwygio Rheoliadau CPLIL 2013 a Rheoliadau CPLIL (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014.

Mae Rheoliadau Datgeliad 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau pensiwn yn hysbysu holl aelodau a buddiolwyr y cynllun o unrhyw newid i'r cynllun sy'n arwain at newid sylweddol i wybodaeth y cynllun sylfaenol.

Ein bwriad yw hysbysu'r aelodau o'r newidiadau trwy anfon cylchlythyr gyda'r datganiadau buddion blynyddol.

Y prif newidiadau a gyflwynwyd yn y Rheoliadau Diwygio yw:

Talu buddion gohiriedig yn gynnar - pe bai aelod wedi gadael y CPLIL gyda buddion gohiriedig rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2014, gallant nawr ddewis cymryd eu buddion gohiriedig o oed 55 (yn hytrach na 60). Mae'r newid i reolau'r cynllun yn golygu nad oes angen caniatâd eu cyn-gyflogwr bellach i gymryd eu buddion rhwng oed 55 a 59. Mae aelodau a adawodd y CPLIL â buddion gohiriedig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014 (ac eithrio cyngorwyr) eisoes yn gallu derbyn eu buddion gohiriedig yn gynnar o 55 oed heb angen caniatâd eu cyn-gyflogwr, ac nid yw hyn wedi newid.

Talu buddion gohiriedig yn gynnar i rai sydd wedi gadael cyn 1 Ebrill 1998 - os bydd aelod wedi gadael y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyda buddion gohiriedig cyn 1 Ebrill 1998, mae rheolau'r cynllun wedi eu newid er mwyn caniatáu iddynt gymryd eu buddion yn oed 55 (yn hytrach na 60) neu'r dyddiad bydd eu buddion gohiriedig yn daladwy heb ostyngiad ar gyfer taliad cynnar - gelwir hyn yn Oedran Pensiwn Arferol (OPA). Bydd yr OPA rhwng oed 60 a 65 yn dibynnu ar ba bryd y ymunodd yr aelod â'r cynllun.

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), sy'n gwneud rheolau'r cynllun ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, wedi cadarnhau eu bwriad i ganiatáu i aelodau a adawodd y CPLIL cyn 1 Ebrill 1998 hefyd dalu eu buddion gohiriedig yn gynnar o 55 oed (yn hytrach na chaniatáu taliad yn 55 oed neu'r OPA), heb ganiatâd y cyn-gyflogwr. Mae'r opsiwn hwn eisoes ar gael i bobl a adawodd y CPLIL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014.

Gostyngiadau i fuddion ar gyfer taliad cynnar - Os bydd aelod yn dewis cymryd eu buddion gohiriedig yn gynharach na'u Hoedran Pensiwn Arferol (OPA), byddant fel rheol yn cael eu lleihau i gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd eu pensiwn yn cael ei dalu am fwy o amser. Mae faint mae'r buddion gohiriedig yn cael ei leihau yn dibynnu ar ba mor gynnar y cânt eu cymryd. Mae'r gostyngiad yn seiliedig ar y cyfnod amser (mewn blynyddoedd a dyddiau) rhwng y dyddiad y mae'r aelod yn eu cymryd a'r dyddiad y bydd y buddion gohiriedig yn daladwy heb ostyngiad ar gyfer talu'n gynnar.

Mae'r Llywodraeth yn gosod y ffactorau lleihau cynnar a gallant amrywio o dro i dro. Gellir dod o hyd i'r ffactorau cyfredol ar wefan genedlaethol y CPLIL - www.lgpsmember.org/more/reductions.php

Newidiadau i gontractau CGY cyn Ebrill 2014 - bydd aelodau'r CPLIL sy'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) cyn 1 Ebrill 2014, yn gweld rhai newidiadau i'r ffordd y caiff eu CGY eu cyfrifo a sut y gallant dderbyn eu cynllun CGY.

Os ydynt ar hyn o bryd yn talu CGY:

- gallant nawr dalu hyd at 100% o'u cyflog pensiynadwy yn eu cynllun CGY (yn hytrach na 50%).
- Bydd CGY nawr yn cael eu didynnu o unrhyw oramser gwirfoddol y maent yn gweithio (os ydynt yn talu CGY fel canran o'u cyflog).

Pan fyddant yn cymryd eu cynllun CGY:

- os byddant yn gadael y cynllun gyda buddion gohiriedig gallant nawr brynu pensiwn ychwanegol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyda'u cynllun CGC pan fyddant yn manteisio ar y cynllun. Cyn y newid, roedd yr opsiwn hwn dim ond ar gael i aelodau actif oedd yn talu CGY o'u cyflog pan adawant y cynllun.
- pan fyddant yn cymryd eu buddion prif gynllun, ni fyddant mwyach yn gallu gadael eu CGY wedi ei fuddsoddi a'i gymryd yn nes ymlaen.
- os byddant yn marw cyn cymryd eu CGY a bod lwmp swm i'w dalu o'u cynllun CGY mae gan eu cronfa bensiwn nawr ddisgresiwn absoliwt dros bwy i dalu'r swm hwnnw (yn hytrach nag ei dalu i'r ystâd). Os telir y lwmp swm yn ôl disgresiwn y gronfa bensiwn, nid yw'n ffurfio rhan o'r ystad ac ni fydd yn destun treth etifeddiaeth.

Cynnydd Pensiwn

Mae pensiynau yn cael eu haddasu'n flynyddol o dan y Ddeddf Cynnyddu Pensiynau. Ar gyfer 2017/18 y cynnyddiad llawn oedd 1%. Mae buddion pensiwn yn statudol ac yn cael eu gwarantu gan y Senedd. Nid ydynt yn dibynnu ar berfformiad buddsoddi ond bydd yr actiwari yn ystyried pa mor dda y perfformiodd y buddsoddiadau wrth osod cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn y prisiant actiwaraid.

Diwygio Treth

Does dim newid wedi bod yn y lwfansau treth gyda'r Lwfans Oes (LO) yn parhau i fod yn £1 miliwn (ond wedi codi i £1.03 miliwn ar gyfer y flwyddyn dreth 2018/19) a'r Lwfans Blynyddol yn aros yn £40,000. Mae'r terfynau isel yma yn cael effaith ar fwy o unigolion o fewn y cynllun. Cynhaliwyd seminar ar y pwnc hwn ar 18 Mai 2017 yn Swyddfa Cyngor Gwynedd.

i- Connect

Fel y nodwyd yn fyr uchod, mae'n bleser dweud bod y gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i arwyddo cyflogwyr i'r system i-Connect. Mae i-Connect yn system feddalwedd sy'n cysylltu gwybodaeth rhwng system gyflogres cyflogwyr a meddalwedd yr Adran Pensiynau. Felly bydd adrodd data yn uniongyrchol bob mis a lleihau dyblygu a llif papur rhwng y cyflogwr a'r Adran Bensiynau. Yn bwysicach fyth, bydd yn lleihau'r angen i gwblhau'r taenlen diwedd flwyddyn, a'r rhestr o ymholiadau cymhleth sy'n anochel yn codi.

Erbyn hyn mae 25 o gyflogwyr yn defnyddio'r meddalwedd i-Connect, a chyflwynodd 12 ohonynt eu data ar-lein erbyn 31/03/2018. Rhagwelir, gyda chymorth y cyflogwyr y bydd 95% o gyflogwyr y cynllun yn ymuno â i-Connect cyn diwedd blwyddyn dreth 2018/19. Mae gwaith eisoes ar y gweill gyda Cyngorau Gwynedd a Chonwy, sef 2 o'n cyflogwyr mwyaf, ac felly bydd yn gam sylweddol ymlaen yn y broses hon.

Y Rheolydd Pensiynau

Yn dilyn cyflwyniad Cod Ymarfer Gwasanaeth Cyhoeddus y Rheoleiddiwr Pensiynau (Llywodraethu a Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus) a ddaeth i rym yn weithredol o 1 Ebrill 2015, mae'r Rheoleiddiwr wedi dweud y byddant yn monitor cronfeydd i sicrhau bod data yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a'i fod mor gywir â phosib. **Nodwch, bydd methiant i gydymffurfio yn golygu bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn gweinyddu dirwyon am beidio â chydymffurfio. Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ymgymryd â phrisiad o'i holl ddata cyflogwr o fewn yr ychydig fisoedd nesaf gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i bob cyflogwr gyda'i ddata cyffredin (e.e. enw, cyfeiriad, DOB, rhif Yswiriant Gwladol) a data diamod (e.e. manylion hanes awr , cyflog terfynol, tal cyfartaledd gyrfa ac ati). Yna bydd pob cyflogwr yn gyfrifol am ddiweddarau'r data os yn anghywir.**

Cyfathrebu

Yn ystod 2017/18, mae'r Gronfa wedi parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i rhanddeiliadwyr. Y gweithgareddau cyfathrebu allweddol oedd:

- Cynhyrchu a dosbarthu Datganiadau Buddion Blyneddol i aelodau actif a gohiriedig.
- Cynhyrchu a dosbarthu newyddlen flynyddol i aelodau actif a gohiriedig.
- Cynnal cyflwyniadau a sioeau teithiol i hyrwyddo'r cynllun i aelodau actif a darpar aelodau.
- Hyrwyddo parhaus o'r gwasanaeth Pensiwn Ar-Lein – Gwefan hunanwasanaeth aelodau.
- Parhau i gydweithio â Chronfeydd Pensiwn eraill Cymru i gynhyrchu deunydd Cyfathrebu allweddol, a thrwy hynny rhannu arbenigedd a chostau.
- Cynnal a chadw gwefan y Gronfa (www.cronfabensiwnwynedd.cymru), sy'n cwmpasu pob agwedd o'r CPLIL ar gyfer ei aelodau actif, aelodau sy'n gynghorwyr, aelodau gohiriedig, pensiynwyr a'u dibynyddion.
- Cysylltu â holl gyflogwyr y cynllun i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i wella cyfathrebu a llif data cywir rhwng y cyflogwyr a'r Gronfa Bensiwn
- Cynnal digwyddiad hyfforddi Treth Pensiwn i enillwyr uchel y Gronfa ar y cyd â'n actiwari Hymans Robertson
- Cynnal cymorthfeydd pensiwn lle gallai aelodau drefnu apwyntiad unigol er mwyn trafod eu pensiwn yn breifat.
- Cynrychioli'r Gronfa ar y Cwrs Cyn-Ymddeol sy'n cael ei gynnal ar sail Gogledd Cymru gan gwmni cyngorwr ariannol annibynnol Chadwicks.

Safle We'r Gronfa

Mae'r wefan yn darparu mynediad at ffurflenni pensiwn a llenyddiaeth ar-lein i aelodau, sy'n cynorthwyo i leihau costau argraffu a phostio'r Gronfa.

Mae'r wefan wedi cael ei ail-ddylunio'n llwyr dros y 6 mis diwethaf - gobeithir y bydd y dyluniad newydd yn llawer haws i'w ddefnyddio. Mae deunydd ychwanegol wedi'i ychwanegu, gan roi llawer mwy o wybodaeth am y cynllun.

Mae gwasanaeth Hunan Wasanaeth Aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn arf gwerthfawr i aelodau. Ar ôl cofrestru i'r wefan ddiogel maent yn gallu:

- Gweld a diweddarau eu manylion personol a newid cyfeiriad
- Cael gwybod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo i mewn
- Gweld manylion y buddiolwyr a enwebwyd

Mae'r adran hunan wasanaeth y wefan hefyd yn helpu i leihau costau ar gyfer y gwasanaeth Pensiynau gyda llai o amcangyfrifon yn gorfod cael eu cyfrifo gan staff y gwasanaeth.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys adran bwrpasol i'r cyflogwr sy'n cynnwys gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys ffurflenni safonol mae'r cyflogwr angen i weinyddu'r CPLIL.

Datganiadau Buddion Blynyddol

Bydd Datganiadau Buddion Blynyddol (DBB) eleni ar gael ar-lein i bob aelod sydd wedi cofrestru ar gyfer e-gyfathrebu. Mae pob aelod wedi cael llythyr i'w annog i gofrestru ar gyfer y gwasanaethau ar-lein a'u hysbysu y bydd eu DBB ar gael ar-lein o hyn ymlaen. Bydd aelodau sydd ddim eisiau derbyn eu DBB ar-lein yn gallu parhau i dderbyn copi papur (ar gais ysgrifenedig). Bydd pob aelod yn derbyn 3 llythyr yn rhoi gwybod iddynt am y cyfleusterau ar-lein:

Llythyr cyntaf wedi ei anfon ar 29/03/2018

Ail lythyr wedi ei anfon ar 25/05/2018

Trydydd llythyr yn cael ei anfon ar 31/07/2018

Mae'r ymateb i'r 2 lythyr cyntaf wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda thua 8000 o aelodau wedi cofrestru ar gyfer Hunan Wasanaeth Aelodau nawr (o'i gymharu â 2,000 o'r blaen).

Yn ystod y cyfnod anfonwyd y llythyrau, derbyniodd yr adran nifer sylweddol o alwadau ffôn, ac felly roeddem yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod prysur hwn.

Mae tua 800 o aelodau wedi ysgrifennu i mewn i gadarnhau eu bod am barhau i gael copi papur o'u datganiadau.

Rhagwelir y bydd cynhyrchu'r datganiadau ar-lein yn arbed y gronfa tua £ 15,000 mewn costau postio a chynhyrchu bob blwyddyn.

Rhaid anfon y DBB allan erbyn 31/08/2018.

Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)

Hoffwn atgoffa bob cyflogwr, os oes posibilrwydd o allanoli unrhyw wasanaeth penodol, yna dylid ystyried y goblygiadau pensiwn yr unigolion sy'n cael eu trosglwyddo allan yn gyntaf. Os oes gan y cyflogwr newydd gynllun arfaethedig tebyg wedi ei ardystio gan Adran Actiwari y Llywodraeth (GAD), yna nid oes unrhyw fater pensiwn. Bydd gan unigolion yr opsiwn o drosglwyddo eu buddion pensiwn i'r trefniant pensiwn newydd, neu eu gadael fel buddion gohiriedig o fewn y CPLIL.

Os nad oes gan y cyflogwr newydd drefniant pensiwn cymharol wedi ei ardystio gan GAD yna bydd gan y cyflogwr newydd ddim dewis (os ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â'r tendr), ond i fod yn Gorff

Trosglwyddai a ganiateir o fewn Cronfa Bensiwn Gwynedd. Cyn y gellir gwneud hyn, bydd angen i'r cyflogwr newydd arfaethedig i wybod beth fydd y gyfradd cyfrannu newydd ac os oes Gwarantwr mewn lle (h.y. y cyflogwr sy'n contractio'r gwaith). Os nad oes Gwarantwr mewn lle mae gofyniad am Fond.

Er mwyn i'r gyfradd gyfrannu a Bond cael i'w benderfynu, bydd angen i'r Adran Bensiynau i ganfod holl fanylion yr unigolion sy'n cael eu trosglwyddo allan, er mwyn i adroddiad gael ei anfon i'r Actiwari i gyfrifo'r gyfradd gyfrannu a'r Bond posibl. Bydd y gost yn cael ei ariannu un ai gan y cyflogwr newydd sy'n contractio allan y gwasanaeth, yn ddibynnol ar y penderfyniad a wneir yn ystod y proses negodi.

Yn ddiweddar mae'r adran wedi cwblhau gwaith ar ganllaw ar gyfer y cyflogwyr newydd gyda'r gobaith o drefnu cyflwyniad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd manylion am hyn yn cael eu dosbarthu ar yr adeg berthnasol.

Adroddiad Blynyddol y CPLIL 2017/2018

Mae cronfeydd CPLIL wedi gwneud cynnydd sylweddol ers prisiant 2013:

- Mae cyfanswm yr asedau wedi cynyddu o werth y farchnad o £ 180 biliwn i £ 217 biliwn. Mae'r lefel gyllid cyfunol darbodus ar ganolfannau lleol wedi gwella o 79% i 85% yn 2016.
- Mae'r lefel ariannu well yn ddyledus yn rhannol i ymrwymiad ariannol sylweddol cyflogwyr CPLIL (cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y tair blynedd a gwmpesir gan adroddiad prisiant 2013 oedd £ 6.9bn y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda thua £ 2.0bn y flwyddyn ohono yn daliadau adennill diffyg), yn ogystal â dychweliad gwell na'r disgwyl ar asedau.
- Ar sail amcangyfrif gorau GAD, roedd y CPLIL mewn gwarged yn 2016 (lefel ariannu tua 106%), ac roedd tua 60 o gronfeydd mewn gwarged. Mae hyn yn golygu ein bod yn disgwyl y bydd, ar gyfartaledd, siawns uwch na 50% y byddai'r asedau presennol yn ddigonol i dalu am fuddion mewn perthynas â gwasanaeth cronedig pan fyddant yn ddyledus.

Nicholas Hopkins
Rheolwr Pensiynau

4.2 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru

Ers rhai blynyddoedd erbyn hyn rydym wedi adrodd ar y cydweithio rhwng yr wyth Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Dechreuodd fel prosiect i Gymru cyn gofynion diweddar y Llywodraeth i pwlio buddsoddiadau. Casgliad prosiect Cymru oedd bod modd gwneud arbedion sylweddol ar ffioedd buddsoddi wrth ddefnyddio llai o reolwyr dros gronfeydd Cymru.

Yn dilyn y proses caffael i benodi'r rheolwr goddefol a gafodd ei gyflawni ym mis Ebrill 2016, mae arbedion sylweddol mewn ffioedd wedi cael eu gwireddu dros y cronfeydd sydd gyda buddsoddiadau goddefol, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Yn ystod 2016/17 derbyniodd y cronfeydd Cymreig ganiatâd gan Lywodraeth San Steffan i symud ymlaen ar sail pwl ar draws Cymru er gwaetha'r ffaith nad yw'n cyrraedd y trothwy penodedig o £25 biliwn ar hyn o bryd.

Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer cydweithio yw Cydbwyllgor gydag aelod etholedig o bob un o'r wyth gronfa pensiwn yng Nghymru. Mae'r Cydbwyllgor yn cyfarfod chwarterol mewn Swyddfeydd bob Gronfa Bensiwn yn ei dro.

Yn ystod 2017/18 cafodd Russell, y darparwr ar gyfer y platfform buddsoddiadau ei benodi trwy'r broses caffaeliad gofynnol. Mae nhw'n defnyddio Link fel gweithredwr ar gyfer Pwll Cymru. Mae'r gwaith o drosglwyddo buddsoddiadau i'r gronfa yn mynd ymlaen gyda ecwiti actif yn trosglwyddo i'r gronfa yn ystod 2018/19.

Ers gael apwyntiad fel Gweithredwr ym mis Rhagfyr 2017, mae Link wedi gweithio gyda ein partneri dirprwyedig yn Northern Trust, Russell Investments a Eversheds Sutherland, yn ygystal a'r Partneriaeth Pensiwn Cymru a eich partneriaethau, er mwyn adeiliadu'r y prospectws a cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Ymddygiad Cyllid (FCA) ar gyfer lansiad y Cynllun Cytunedol Awdurdodedig (ACS). Yn ystod 2019 bydden parhau gyda'r cysyniadau a datblygu ar gyfer strategaethau pellach / is-gronfeydd er mwyn sicrhau gellir bob awdurdod yn gyflawni ei amcanion buddsoddi unigol.

Cynnydd ers penodiad Link fel Gweithredwyr hyd at Medi 2018

Rhagfyr 2017

- Apwyntiad Link fel Gweithredwr

Ionawr 2018

- Syniadolaeth is-gronfa rhan I yn dechrau gyda Russell er mwyn adeiladu cynnig
- Cytuno is-gronfa optimaidd cychwynnol

Chwefror 2018

- Ystyried amrwyiol strwythr is-gronfa gyda'r Grwp Gweithio Swyddogion (Officers Working Group (OWG))
- Cytuno strwythyr y gronfa a'r Rheolwyr

Mawrth 2018

- Apwyntiad Rheolwr Rhan I wedi cytuno

Mehafin 2018

- Cyd-bwyllgor Joint Governance Committee signs off ACS Prospectus
- Commencement of Tranche 2 conceptualisation with Russell to build proposal

July 2018

- FCA Approval of funds received 24th July
- Tranche 2 Fund structure agreed with OWG

August 2018

- Transition Manager tender issued 10th August 2018 – all bidders responded
- Fund Operational setup begins with Administrator & Depositary (NT)

September 2018

- Initial Manager Day held 5th September – Global Growth managers and 3 of the Global Opportunities managers. Feedback was positive
- Transition Manager Evaluation & appointment begins

4.3 Prisiad Actiwaraidd

Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd teirblynyddol fel ar 31 Mawrth 2016 yn ystod 2016/17. Roedd sefyllfa ariannu holl Gronfa wedi gwella o 85% ar 31 Mawrth 2013 i 91% ar 31 Mawrth 2016 yn bennaf oherwydd perfformiad buddsoddiadau dros y cyfnod.

Mae'r ymrwymadau wedi codi hefyd oherwydd lleihad mewn dychweliadau buddsoddi disgwylidig yn y dyfodol, er bod hyn wedi cael ei fantoli'n rhannol yn erbyn twf mewn cyflogau a buddiannau is na'r disgwyl.

Yn gyffredinol, mae'r cyfraniadau gofynedig gan gyflogwyr ar gyfer buddian newydd a enillwyd gan aelodau (y brif gyfradd) wedi codi. Mae newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr er mwyn cyllido'r diffyg wedi amrywio dros y cyflogwyr.

Cynhyrchoedd yr actiwari adroddiad ar gyfer bob cyflogwr unigol. Cynhaliwyd fforwm ar gyfer yr holl gyflogwyr ym mis Tachwedd ble cyflwynodd yr Actiwari'r canlyniadau ac ymateb i gwestiynau. Roedd hyn yn sesiwn yn ddefnyddiol iawn ac roedd yn siomedig nad oedd mwy o gyflogwyr wedi cymryd y cyfle i fynychu'r sesiwn.

Cyhoeddwyd Adroddiad Prisiad Actiwaraidd 2016 Cronfa Bensiwn Gwynedd terfynol ym mis Mawrth 2017 ac mae'n ar gael ar safle we'r y gronfa ar http://www.gwyneddpensionfund.org.uk/upload/public/attachments/1272/170330_Gwynedd_Pension_Fund_2016_Formal_Valuation_Report_final.pdf

4.4 Datganiad Strategaeth Cyllido

Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ystod 2016/17 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad Actiwaraidd ar 31 Mawrth 2016 a ymgynghorwyd gyda'r cyflogwyr sydd yn cyfranogi i'r Gronfa yn ystod y broses hon. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn gosod y strategaeth penodol i'r Gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd wrth symud ymlaen. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Mae copi o'r Strategaeth Cyllido ar gael ar safle we'r gronfa ar http://www.gwyneddpensionfund.org.uk/Pensiynau/pens_dogfen.asp?cat=6161&doc=30465&Language=2&p=1&c=1

4.5 Datganiad Strategaeth Buddsoddi

Bu i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB) ar 16 Mawrth 2017 yn dilyn ymgynghoriad gyda'r partion â diddordeb. Mae'r strategaeth hon yn diffinio'r mathau o fuddsoddiadau gellir y gronfa defnyddio yn y tymor hir.

Nid oes cyfyngiadau penodol ar gyfer buddsoddiadau. Beth bynnag, mae'n ymarfer da i gael rhai terfynau llydan ac chynhwysir y rheiny yn yr DSB. Mae copi o'r DSB ar gael ar safle we'r gronfa ar <http://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Datganiad-o-Egwyddorion-Buddsoddi.aspx>

4.6 Safon Cyfrifeg Ryngwladol I9 (SCRI9) a Safon Adrodd Ariannol I7 (SAAI7)

Diffiniad o SCR19

Mae SCR19 yn diffinio sut dylid dangos asedau ac ymrwymadau cynllun pensiwn i bwrpas adrodd mewn cyfrifon ariannol, gan nodi fod rhaid datgelu unrhyw ddiffyg neu ormodedd yn llawn ar y fantolen ariannol, gydag unrhyw symudiad yn cael ei ddangos yn y cyfrif elw a cholled flynyddol. Mae SCR19 yn berthnasol i gyrff sydd yn gorfod adrodd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhwngwladol (SAAR). Mae hyn wedi effeithio'r gyrff ar yr atodlen yn y Gronfa Bensiwn sydd yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Fwrdeistrefol Conwy a'u hysgolion sylfaenol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin. Roedd dau o'r cyflogwyr llai angen adroddiadau IAS19 hefyd. Mae'r cyflogwyr eraill yn parhau i adrodd yn unol â gofynion SAAI7.

Cyfrifo am SCR19 a SAAI7

Mae mabwysiadu'r SCR19 neu SAAI7 yn golygu bod rhaid i gyflogwyr adnabod yr ased neu ddiffyg net, ynghyd â reserf pensiynau, yn y fantolen. Hefyd, rhaid iddynt gofnodi yn y cyfrif refeniw cyfunol y symudiadau yn yr ased neu ddiffyg sy'n perthyn i gynllun buddion diffiniedig.

Adroddiadau SCR19 a SAAI7 ar 31/03/2018

Yn Chwefror 2018, aethpwyd ati i gasglu'r data angenrheidiol er mwyn i'r Actiwari gael cyfrifo'r wybodaeth SCR19 neu SAAI7 unigol ar gyfer cyflogwyr y Gronfa. Gyrrwyd mwyafrif yr adroddiadau i'r cyflogwyr rhwng 18 Ebrill a 24 Ebrill 2018.



Canlyniadau SCR19 a SAAI7 fel ar 31/03/2018

Bydd canlyniadau pob cyflogwr yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol eu hunain. Felly, dylid ystyried y diweddariad hwn fel arweiniad eglurhaol i'r prif faterion sydd yn effeithio mwyafrif y cyflogwyr, yn hytrach nag esboniad manwl o brofiad bob cyflogwr.

Mae'r tybiaethau a defnyddwyd wedi dod o'r adroddiad IAS19 Cyngor Gwynedd ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017. Mae'r actiwari yn amcangyfrifo bod effaith y newid mewn tybiaethau hyd at 31 Mawrth 2018 yn lleihau'r gwerth presenol actiwaraid £53miliwn. Nid oes unrhyw effaith oherwydd unrhyw newid mewn tybiaethau demograffig a hirhoedledd oherwydd maent yn unfath yn y cyfnod blaenorol.

Caroline Roberts
Rheolwr Buddsoddi

5. Tueddiadau Diweddar



6. Adroddiad Rheoli

6.1 Gweinyddiaeth y Cynllun

Cyffredinol

Ceir y sylfaen ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel ei diwygiwyd) a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosglwyddo, Arbedion a Newidiad) 2014 (hefyd fel ei diwygiwyd).

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 25 o gyrff eraill sydd ar yr atodlen (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol) a 20 o gyrff a ganiateir. Nid yw athrawon yn dod o dan y Gronfa hon ac mae darpariaethau gwahanol ar eu cyfer hwy. Telir am y Gronfa trwy gyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi.

O Ebrill 2014 pennir cyfradd cyfrannu gweithwyr mewn bandiau yn ôl eu gwir gyflog wedi ei gynyddu gyda'r lefel chwyddiant blyneddol. Gellir gweithwyr dewis talu cyfraniadau hanner cyfradd er mwyn cronni buddion personol cyfradd hanner mewn cynllun o'r enw 50/50, mae buddion marwolaeth a dibynyddion yn dal ar gyfradd lawn. Dangosir y bandiau ar gyfer Ebrill 2017- Mawrth 2018 yn y tabl isod:

Amrediad Cyflog	Graddfa Cyfraniad prif gynllun	Graddfa Cyfraniad cynllun 50/50
Hyd at £13,700	5.5%	2.75%
£13,701 - £21,400	5.8%	2.9%
£21,401 - £34,900	6.5%	3.25%
£34,901 - £43,900	6.8%	3.4%
£43,901 - £61,300	8.5%	4.25%
£61,301 - £86,800	9.9%	4.95%
£86,801 - £102,200	10.5%	5.25%
£102,201 - £153,300	11.4%	5.7%
Mwy na £153,301	12.5%	6.25%

Mae cyflogwyr yn cyfrannu at y cynllun ar raddfa wedi ei asesu'n deirflynyddol gan Actiwari'r Gronfa, neu pan mae newid sylweddol mewn aelodaeth neu broffil y cyflogwr. Mae cyflogwyr yn dal i dalu cyfradd llawn ar gyfer aelodau sydd yn dewis yr opsiwn 50/50 neu ar dâl llai oherwydd salwch.

Buddion

Mae'r CPLIL yn darparu buddion sylweddol i aelodau yn seiliedig ar ddau gynllun ar wahân. Mae trefniant cyflog terfynol, sydd yn cynnwys dau gyfradd cronni, a CARE (Enillion Cyfartaledd Gyrfa a Ailbriswyd) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Isod fe restrir crynodeb byr o sut mae'r pensynau yn cael eu cronni o dan y ddau drefniant.

Ar gyfer yr elfen buddion cyflog olaf bydd buddion fel arfer yn seiliedig ar ddau ffactor sef: hyd y gwasanaeth y talwyd cyfraniadau i'r cynllun, a geir ei adnabod fel "Cyfanswm Aelodaeth", a'r cyflog yr oedd y cyfraniadau yn seiliedig arno (fel arfer y 12 mis olaf o wasanaeth), a geir ei adnabod fel "Cyflog Olaf".

Bydd y rhan CARE mewn ffurf 1/49fed a chyfrifwyd ar wir gyflog pensiynadwy bob blwyddyn sydd yn cael eu hailbriso yn flynyddol.

- **Pensiwn Blynyddol**

Mae'r cyfrifiad ar gyfer pensiwn safonol blynyddol yn seiliedig ar y fformiwla isod:

***Cyflog Olaf x 1/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008; plws
Cyflog Olaf x 1/60 x Cyfanswm Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014; plws
Y pensiwn CARE wedi ei chronni ac ailbriso ar y blynyddoedd o 1 Ebrill 2014
ymlaen***

Unwaith bydd y pensiwn yn cael ei dalu bydd yn cynyddu bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Prynwyr.

- **Lwmp Swm**

Hefyd mae hawl derbyn lwmp swm yn ddi-dreth ar aelodaeth i 31 Mawrth 2008, wedi ei gyfrifo ar sail y fformiwla isod:

Cyflog Olaf x 3/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008 yn unig

- **Newid Buddion**

Mae dewis cyfnewid rhan o'r pensiwn er mwyn cynyddu'r lwmp swm dros ben y fformiwla a ddangosir uchod, ond o fewn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

Pensiynau Cynghorwyr

Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu mynediad i Aelodau. Seilir y pecyn buddion ar fformiwla'r cynllun am bensiwn a lwmp swm cyn Ebrill 2008 fel y gwelir uchod, ond defnyddir Cyflog Cyfartalog Gyrfa yn lle Tâl Terfynol. Dyma'r sefyllfa o hyd ar gyfer aelodau cynghorwyr, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r prif gynllun newydd o Ebrill 2014. Ni chaiff Cynghorwyr newydd ymuno a'r CPLIL yn **Lloegr** a bydd yn rhaid i Aelodau Cynghorwyr adael y cynllun pan fydd eu cyfnod yn y swydd wedi dod i ben.

Ymddeoliad Salwch

Os oes gan aelod o leiaf 2 flynedd o gyfanswm aelodaeth, a bod meddyg cofrestredig annibynnol a gymeradwywyd gan yr awdurdod gweinyddu yn tystio ei fod yn barhaol anabl i wneud ei swydd, neu unrhyw swydd debyg gyda'r cyflogwr, bydd yn derbyn pensiwn ac os yw'n dewis cyfnewid pensiwn lwmp swm yn rhydd o dreth yn syth.

Mae'r buddion sy'n daladwy yn dibynnu ar yr haen o ymddeoliad salwch a ddyfarnwyd:

Haen 1

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eu Hoedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun yn ogystal â'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

Haen 2

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael,

ond maent yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â chyflogaeth o'r fath cyn eu OPA, mae'r buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun ynghyd â 25% o'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

Haen 3

Os yw'r aelod yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, neu cyn eu OPA os yn gynt, bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn wrth adael. Bydd y buddion hyn yn cael eu hatal ar ôl 3 blynedd, neu'n gynharach os yw'r aelod mewn swydd gyflogedig neu'n dod yn alluog i gyflogaeth o'r fath, ar yr amod nad ydynt wedi cyrraedd eu OPA erbyn hynny. Os bydd y taliad yn cael ei stopio bydd fel arfer yn daladwy unwaith eto o OPA.

Mae gwaith cyflogedig yn golygu gweithio am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

Ymdeoliad Cynnar

Os yw cyfanswm aelodaeth yn 2 flynedd neu fwy, gall aelod ddewis ymdeol a derbyn ei fudd CPLIL unrhyw adeg ar ôl 55 oed; er hynny gall taliad cyn oed ymdeol arferol olygu lleihad actiwariad er mwyn talu am y rhyddhad buan, ac os ar ôl oed buddion pensiwn arferol gellir cael codiad actiwariad oherwydd taliad hwyr.

Buddion Gohiriedig

Mae aelodau sy'n gadael gyda 2 flynedd aelodaeth yn cael buddion gohiriedig, fel a'i cyfrifwyd ym mharagraff 'Buddion', ond i'r buddion gael eu gohirio a'u cynyddu gyda'r mynegai, hyd nes gwneir taliad unrhyw amser ar ôl oedran 55 (oedran 60 os yw terfyniad cyn 1/04/2014) . Neu mae'n bosib trosglwyddo swm sy'n cyfateb i'r buddion i gynllun pensiwn arall.

Bydd aelodau sy'n gadael gyda chyfanswm aelodaeth o lai na 2 flynedd a dim hawliau CPLIL bellach, yn cael ad-hawlio'u cyfraniadau, llai treth ac unrhyw premiwm 'contracting out' perthnasol.

Marw Mewn Gwasanaeth

Mae lwmp swm o dair gwaith Cyflog Terfynol yn daladwy, waeth pa mor hir oedd yr aelodaeth. Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, tydi'r Cyflog Terfynol ddim yn cael ei gynyddu i'w raddfa gyfatebol llawn amser.

Yn ychwanegol, gellir buddion goroeswyr yn cael ei dalu i'r priod, neu bartner, gyda buddion i unrhyw blant sy'n ddibynnol hefyd yn daladwy yn amodol ar feini prawf penodol, yn seiliedig ar oedran ac os mewn addysg llawn amser.

Marw ar ôl Ymdeol

Mae taliadau pensiwn yn dod gyda gwarant deng mlynedd, ac felly os yw marwolaeth yn digwydd o fewn deng mlynedd o'r ymdeoliad a chyn oedran 75 gellir talu grant marwolaeth ar y gweddill y pensiwn heb ei dalu hyd at yr uchafswm a buasai wedi ei dalu hyd at oedran 75.

Fel gyda marwolaeth mewn gwasanaeth, mae pensiynau priod a phartner yn daladwy am oes tra bod pensiynau i blant cymwys yn daladwy o dan yr un amodau fel Marw mewn Gwasanaeth.

6.2 Sefyllfa Actiwaraidd

Cyffredinol

Ar 31^{ain} Mawrth 2016 cafodd y Gronfa ei phrisio diwethaf (ar Fawrth 31^{ain} 2013 cyn hynny), ac mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiaidau.

Dull a Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Y dulliau actiwaraidd a ddefnyddiwyd yn y Prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" ar gyfer y gronfa gyfan ac ar gyfer cyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd i'r gronfa â'r "Dull Cyrraedd Oed" ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd i'r gronfa. Y prif ragdybiaethau ariannol a fabwysiadwyd adeg prisio oedd:

	% y flwyddyn
Cyfradd Disgownt	3.9%
Codiadau Cyflog (heb gynnwys incrementau)*	2.1%
Chwyddiant / Codiadau Pensiwn	2.1 %

Y Canlyniadau

Prif amcan cyllido'r Gronfa ydi gofalu bod asedau'r Gronfa yn ddigonol ar gyfer talu buddion aelodau fel y maent yn cronni. Pan fydd asedau'r Gronfa yn hafal i'w hymrwymiaidau, yna dywedir bod lefel gyllido'r Gronfa yn 100%. Yn yr adroddiad prisiant ar gyfer 31 Mawrth 2016 a gafodd ei gyhoeddi ar 31 Mawrth 2017 gan Hymans Robertson, roedd y lefel Cyllido yn 91% (o'i gymharu â 85% ar 31 Mawrth 2013) ac roedd diffyg cyllido o £145m. Gwerth marchnad yr asedau ar y dyddiad prisio oedd £1,525m ac aseswyd bod yr ymrwymiaidau yn £1,670m.

Mae'r tabl canlynol yn gosod allan canlyniadau prisio'r Gronfa gyfan:

	£m
Ymrwymiaidau Net:-	
Aelodau Gweithredol	761
Pensiynwyr Gohiriedig	252
Pensiynwyr	657
Cyfanswm Net Ymrwymiaidau	1,670
Cyfanswm Gwerth yr Asedau	1,525
Gweddill (Diffyg)	(145)
Lefel Gyllido	91%

Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr

Yr Amcan Cyfraniadau yn cael ei gyflawni gan gosod cyfraniadau cyflogwyr sydd yn debyg i fod yn digonol i gwrdd y cost ar gyfer buddiannau newydd croniedig a mynd i'r afael unrhyw diffyg cyllido sydd yn perthynol y targed cyllido dros yr gorwel amser cytunedig. Amcan ailradd yw cynnal cyfraddau cyflogwyr cymharol sefydlog.

Er mwyn i bob cyflogwr yn y Gronfa i gwrdd a'r Amcan Cyfraniadau, cyfrifwyd cyfradd cynradd er mwyn cyllido cost buddiannau newydd yn y Gronfa. Yn ychwanegol, os oes angen, cyfrifwyd cyfradd eilaidd er mwyn targedu sefyllfa gronol cyflawn ar gorwel amser bob cyflogwr unigol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cyfraddau prif ac ail gyfraniadau ar y prisiad yma.

Prif Gyfraniad (% cyflog)	Ail Gyfradd £		
I Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2020	2017/18	2018/19	2019/20
18.7%	£6,734,000	£6,761,000	£6,788,000

6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw

Llywodraethu

Gweinyddir y Gronfa o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan statud, sy'n datgan mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod gweinyddol.

Polisiâu Llywodraethu

Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol yn nodi trefniadau llywodraethol y Gronfa Bensiwn.

Gweler copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn.

Cyngor Arbenigol

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gorfodi'r Cyngor i sicrhau cyngor arbenigol ar fuddsoddi. Darperir y cyngor hwn gan ymgynghorydd annibynnol o gwmni Hymans Robertson (ymgyngorwyr y Gronfa) sy'n ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn monitro'r Rheolwyr Buddsoddi. Bydd ymgynghorydd o Hymans yn bresennol ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Rheolwyr Buddsoddi

Dros gyfnod yr adroddiad hwn roedd 5 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: BlackRock, Fidelity International (Fidelity), Insight Investment (Insight), Veritas a Partners Group. Mae'r gronfa hefyd wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol gyda Chronfa Eiddo Lothbury, Cronfa Eiddo Pensiwn Threadneedle, a Chronfa Eiddo UBS Life.

Dangosir y dyraniad targed asedau'r Gronfa yn y tabl isod. Buddsoddir mewn is-adeiladwaith dros gyfnod o amser ac felly nid yw'r gwir ddyraniad wedi cyrraedd y targed yn ystod y flwyddyn.

Mae meincnod amcan y Gronfa fel a ganlyn:

Rheolwr	%
BlackRock	29.5
Veritas	19.0
Fidelity	19.0
Insight	15.0
UBS / Lothbury / Threadneedle / BlackRock (Eiddo yn unig)	10.0
Partners – Ecwiti Preifat	5.0
Partners – Is-adeiladwaith	2.5
Cyfanswm	100.0

Ceidwaid

Mae gan rai o'r rheolwyr buddsoddi ceidwaid cysylltiedig sy'n dal asedion eu rhan nhw o'r portffolio. Mae'r rheolwyr a'u ceidwaid cysylltiedig fel a ganlyn:

- Ceidwad BlackRock yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Fidelity hefyd yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Insight yw Cwmni'r Northern Trust;

Gan nad oes gan un rheolwr buddsoddi geidwaid cysylltiedig, mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi penodi:

- Cwmni Northern Trust fel ceidwad ar gyfer yr asedau a reolir gan Veritas.

Mae Lothbury, Threadneedle a UBS y tri chwmni yr ydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol a hwy, yn defnyddio Cwmni'r Northern Trust fel eu ceidwad hwy.

Nid yw Partners Group yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau cadw'r Gronfa.

Trefniadau Gweinyddol

Mae trefniadau gweinyddol yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hynny sydd yn digwydd, rhwng y Rheolwyr Buddsoddi a'r Cyngor, yn gorfod cael eu hawdurdodi gan lofnodion dau o'r swyddogion a enwir ar restr lofnodion awdurdodedig y Gronfa Bensiwn.

Dyraniad Asedau

Prif benderfynydd perfformiad hirdymor y Gronfa ydi dyraniad strategol yr asedau. Yn dilyn y dyraniad i is-adeiladwaith dyraniad strategol asedau'r Gronfa ydi 72.5% cyfranddaliadau, 15% bondiau'r DU, 10% eiddo a 2.5% is-adeiladwaith.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad meincnod y Gronfa yn dilyn y newid yn ystod 2017/18.

	BlackRock Cap Marchnad %	BlackRock Sylfaenol %	Veritas %	Fidelity %	Insight %	UBS/Thread- needle/ Lothbury/ BlackRock Property %	Partners Group %	Cyfanswm %
Canran o'r Gronfa	22.5	7.0	19.0	19.0	15.0	10.0	7.5	100.0
Cyfranddaliadau'r DU	69.0	10.3	7.5	7.5	-	-	-	19.5
Cyfranddaliadau Tramor	31.0	89.7	92.5	92.5	-	-	-	48.0
Gogledd America	0.0	50.3	54.1	54.1	-	-	-	22.5
Ewrop ac eithrio'r DU	11.0	22.3	15.9	15.9	-	-	-	10.0
Siapan	5.0	10.9	7.4	7.4	-	-	-	5.0
Basn y Pasiffig	5.0	6.0	4.2	4.2	-	-	-	4.5
Marchnadoedd sy'n Datblygu	10.0	0.2	10.8	10.8	-	-	-	6.0
Ecwiti Preifat	-	-	-	-	-	-	66.7	5.0
Cyfanswm Cyfranddaliadau	100.0	100.0	100.0	100.0	-	-	66.7	72.5
Bondiau'r DU	-	-	-	-	100.0	-	-	15.0
Cyfanswm Bondiau	-	-	-	-	100.0	-	-	15.0
Eiddo	-	-	-	-	-	100.0	-	10.0
Is-adeiladwaith	-	-	-	-	-	-	33.3	2.5
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

6.4 Pwerau Buddsoddi

Pwerau Buddsoddi

Roedd angen i'r Gronfa cael Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) yn flaenorol, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau ar fathau penodol o fuddsoddiadau a gallodd bob cronfa dewis i newid y symiau os oedd angen gosod dyraniad perthnasol i'r gofynion penodol. Yn ystod 2016/17 newidiwyd y rheoliadau er mwyn gofyn am Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB). Mae copi o'r DSB ar gael ar safle we'r Gronfa Bensiwn ar

http://www.gwyneddpensionfund.org.uk/Pensiynau/pens_dogfen.asp?cat=6161&doc=30466&Language=2&p=1&c=1

Mae dileu'r rheoliadau wedi rhoi fwy o hyblygrwydd i gronfeydd pensiwn wrth osod eu strategaethau a'r gallu i fuddsoddi canran uwch o'u cronfa mewn trefniadau pwlio unigol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol yn y ddeddfwriaeth newydd ac felly nid oes angen codi'r symiau yn ffurfiol. Beth bynnag mae'n ymarfer da i gael cyfyngiadau eang ac mae'r rheiny wedi cael eu cynnwys yn y DSB.

6.5 Rheoli Buddsoddiadau

Cyffredinol

Prif nod polisi buddsoddi yw uchafu'r enillion ar yr arian dan ofal y Cyngor, yn gyson â lefel dderbyniol o risg, ac i'r enillion yn y tymor hir fod yn fwy na chwyddiant cyflogau. Rhaid cadw mewn cof mai yn y tymor hir iawn y mae ymrwymadau'r Gronfa (sef pensiynau), gan ymestyn hyd at ganol y ganrif. Bydd yr ymrwymadau hyn yn codi gyda chwyddiant, oherwydd cyswllt pensiynau i'r mynegai chwyddiant a hefyd oherwydd codiadau yng nghyflogau gweithwyr hyd at eu hoedran ymddeol. Mae perthynas rhwng lefelau'r enillion a dderbynnir â'r gyfradd cyfraniadau y disgwylir i gyflogwyr ei dalu. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod yr enillion tymor hir o gyfranddaliadau yn mynd i fod yn fwy na'r enillion ar fondiau, felly oherwydd hyn buddsoddir y rhan fwyaf o'r Gronfa mewn cyfranddaliadau.

Cyfarwyddyd Rheolwyr Buddsoddi

Oherwydd polisi pendant i sicrhau amrywiaeth yn yr asedion ac yn y dull o fuddsoddi, mae gan y Gronfa 5 Rheolwr Buddsoddi yn derbyn gwahanol gyfarwyddiadau:

Rheolwr Buddsoddi	Cyfarwyddyd
BlackRock	Goddefol
Fidelity	Gweithredol
Insight	Gweithredol
Veritas	Gweithredol
Partners	Gweithredol

Cyfarwyddyd BlackRock yw bod yn rheolwyr "goddefol". Byddant yn dyrannu asedion yn unol â'u meincnod ac ym mhob marchnad byddant yn olrhain mynegai'r farchnad stoc. O ganlyniad dylai eu perfformiad olrhain eu meincnod unigol. Mae apwyntio rheolwr goddefol yn lleihau'r risg o danberfformiad, ond hefyd yn lleihau'r siawns o orberfformiad cymharol i'r meincnod.

Briff “gweithredol” sydd gan yr holl reolwyr eraill. Mae ganddynt ddisgresiwn i fuddsoddi yn eu syniadau buddsoddi gorau. Tra bod ganddynt hyblygrwydd o ran, pa stociau, rhanbarthau a sectorau i fuddsoddi ynddynt, mae nifer o gyfyngiadau mewn lle i rwystro’r rheolwyr rhag gwro yn rhy bell oddi wrth eu meincnod a chymryd gormod o risg. Mae apwyntio rheolwr gweithredol yn cynyddu’r siawns o orberfformiad, ond hefyd yn cynyddu’r risg o danberfformiad cymharol i’r meincnod.

Mae gan Veritas a Fidelity briff cyfranddaliadau “gweithredol”, tra bod gan Insight briff bondiau “gweithredol”. Briff ecwiti preifat “gweithredol” ac is-adeiladwaith “gweithredol” sydd wedi ei roi i Partners.

6.6 Perfformiad Buddsoddi

Cyfarfodydd Chwarterol

Caiff perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ei fonitro’n chwarterol. Bob chwarter bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i’r Pwyllgor Pensiynau, y swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ac i ymgynghorydd y Gronfa. Yn chwarterol bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng Rheolwyr Buddsoddi, y Pwyllgor, swyddogion a’r ymgynghorydd i fonitro eu perfformiad.

Monitro Perfformiad

Tanysgrifia Gwynedd i wasanaeth mesur Pensions & Investment Research Consultants Ltd (PIRC), sy’n cyfrifo’r gyfradd enillion i Wynedd ac ar gyfer cronfeydd pensiwn eraill, ac yn darparu cymariaethau.

Targedau

Dangosir meincnodau perfformiad unigol ar gyfer y Rheolwyr Buddsoddi unigol yn y tabl isod:

Rheolwr	Meincnod	Targed
BlackRock	FTSE All-Share a’r FTSE All-World Indices	Elw’r Meincnod
Veritas	MSCI All Countries World Index	Meincnod + 2% y flwyddyn (gros o ffioedd)
Fidelity	MSCI All Countries World Index	Meincnod +2%-3% y flwyddyn (gros o ffioedd)
Insight	Arian (Libor)	Meincnod +2% y flwyddyn
Partners	MSCI World	Meincnod + 5% y flwyddyn.*



*Nid oes gan Partners darged perfformiad swyddogol. Targed ar gyfer pwrpas mynegol yn unig a welir uchod.
MSCI=Morgan Stanley Capital International.

Gan mai buddsoddiadau uniongyrchol yr ydym wedi ei wneud gyda Lothbury, UBS a Threadneedle, nid ydym wedi rhoi meincnod iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer pwrpas mynegol byddwn yn eu monitro yn erbyn yr “IPD Balanced Property Unit Trust Index”.

Perfformiad y Gronfa

Yn erbyn y meincnod, isberfformiodd y Gronfa 0.6% yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18. Llwyddodd y Gronfa i gael enillion o +3.0% yn erbyn y meincnod o 3.6%. Dros gyfnod o bump blynedd mae’r Gronfa wedi gorberfformio yn erbyn y meincnod gydag enillion o +9.4% o’i gymharu ag enillion y meincnod o +8.8%.

Mae'r graffiau a'r tabl isod yn dangos perfformiad y Rheolwyr dros 1 a 3 blynedd.



Fel arfer cydnabyddir bod perfformiad dros gyfnod hir (3 neu fwy o flynyddoedd, dyweder) yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol; gall strategaethau a gynllunnir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddiweddf o golledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

	Enillion Blwyddyn	Meincnod Blwyddyn	Enillion 3 Blynedd	Meincnod 3 Blynedd
BlackRock	25.3%	25.3%	9.3%	9.3%
BlackRock Property	3.5%	3.7%	9.5%	10.3%
Fidelity	30.7%	32.3%	15.7%	15.6%
Insight	3.7%	0.4%	1.9%	0.5%
Lothbury	4.8%	3.7%	10.4%	10.3%
Partners	23.5%	32.3%	29.4%	15.6%
Threadneedle	3.6%	3.7%	10.9%	10.3%
UBS	4.1%	3.7%	11.9%	13.0%
Veritas	26.2%	32.2%	16.1%	15.6%
Y GRONFA GYFAN	22.1%	22.2%	12.1%	11.5%

6.8 Datganiad Strategaeth Cyllido

Cyffredinol

Mae'n rhaid i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) baratoi a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC).

Mae buddion CPLIL wedi eu gwarantu gan statud ac felly mae'r addewid o bensiwn yn sicr. Mae'r DSC yn cyfeirio at y ffaith bod eisiau rheoli'r angen i gyllido'r buddion yma tros y tymor hir, a hefyd yr un pryd hwyluso gwaith archwilio ac atebolrwydd trwy wella tryloywder a'r broses o ddatguddio. Hefyd, mae'n rhoi fframwaith statudol i awdurdodau gweinyddol CPLIL ar gyfer rheoli diffygion pensiwn tymor hir y Gronfa wrth symud ymlaen.

Adolygu'r DSC

Adolygwyd y DSC yn ystod 2016/17 fel rhan o broses Prisiad Actiwaraid 31 Mawrth 2016. Roedd y broses adolygu yn cynnwys ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa ac Actiwari'r Gronfa. Mabwysiadwyd y DSC cyfredol ar 16 Mawrth 2017 gan y Pwyllgor Pensiynau.

Mae copi ar gael ar safle we'r Gronfa Bensiwn ar

http://www.gwynedd-pensionfund.org.uk/Pensiynau/pens_dogfen.asp?cat=6161&doc=30465&p=1&c=1

6.9 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi mabwysiadu'r datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth yn ffurfiol fel a ganlyn:


Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y Gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud

penderyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

7. Ystadegau Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn aelodaeth y Gronfa dros y 19 mlynedd diwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 4,689 yn 1999 i 8,819 yn 2017 ac mae nifer y cyfranwyr hefyd wedi cynyddu o 9,372 yn 1999 i 16,327 yn 2017 sydd yn codiad bach ers y flwyddyn cynt (2016: 15,971).



Mae'r tabl isod yn dangos yr ystadegau aelodaeth:

31 Mawrth 2017	Disgrifiad	31 Mawrth 2018
16,327	Cyfranwyr	18,090
10,669	Pensiynwyr Gohiriedig	11,315
8,819	Pensiynau a Delir	9,199
1,437	Buddion heb eu hawlio	1,470
37,252	Cyfanswm Aelodaeth	40,074

8. Datganiad o'r Cyfrifon

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiâu cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2018, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

27 Medi 2018

Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

**CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD
2017/18**

**CYFRIF Y GRONFA AM Y FLWYDDYN DDAETH
I BEN AR 31 MAWRTH 2018**

31 Mawrth 2017 £'000	Nodiadau	31 Mawrth 2018 £'000
Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
67,695	7	82,302
7		1
2		1
0		1
5,893	8	4,360
73,597		86,665
(53,982)	9	(53,911)
(3,970)	10	(2,306)
(57,952)		(56,217)
(11,641)	11	(13,367)
Enillion ar Fuddsoddiadau		
12,886	14	15,155
(378)	15	(252)
322,316	16	41,758
334,824		56,661
Cynnydd yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		
338,828		73,742
Asedau net y Gronfa		
1,525,405		1,864,233
338,828		73,742
1,864,233		1,937,975

**DATGANIAD ASED AU NET AR
31 MAWRTH 2018**

31 Mawrth 2017 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2018 £'000
1,798,325	Asedau buddsoddi	16	1,859,635
49,248	Adneuon arian parod	16	44,352
1,847,573	Cyfanswm Asedau Buddsoddi		1,903,987
(235)	Ymrwymadau buddsoddi	16	(4,690)
20,984	Asedau cyfredol	21	42,626
(4,089)	Ymrwymadau cyfredol	22	(3,948)
1,864,233			1,937,975

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2016) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiaid hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd â ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 20.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O’R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd (“y Gronfa”) yn rhan o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe’i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw’r endid adrodd ar gyfer y Gronfa bensiwn hon. Crynodeb o’r Gronfa yw’r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2017/18 a’r pwerau statudol sy’n tanategu’r cynllun, sef Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a’r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy’n llywodraethu’r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â’r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y’i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y’i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y’i diwygiwyd).

Mae’n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi’u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae’r Gronfa’n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o’r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p’un a ydynt am ymuno â’r cynllun, parhau’n aelod o’r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i’r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy’n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy’n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o’r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy’n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â’r CPLIL ac i fabwysiadu’r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy’n sefydliadau eraill sy’n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a’r sefydliad perthnasol. Mae’r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy’n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i’r swyddogaeth gael ei allanoli i’r sector preifat.

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr Atodlen	
Cyngor Gwynedd	Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Eilian
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GWE	NWTRA
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangedfni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Cymuned Trefriw (ymuno 1 Mehefin 2017)	
Cyrff a Ganiateir	
Addysg Oedolion Cymru (cynt CAG Coleg Harlech)	Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion
CAIS	Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Canolfan Cyngori Conwy	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Canolfan Cyngori Ynys Môn	Mantell Gwynedd
Cwmni Cynnal	Medrwn Môn
Cwmni'r Frân Wen	Menter Môn
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir	
ABM Catering	Caterlink
Superclean I	Dawnus (ymuno 1 Ebrill 2017)

c) **Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Hefyd mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiaid actiwaraid a gynhelir teirblynyddol. Gweithredwyd cyfraniadau cyflogwr newydd ar gyfer y tair mlynedd o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 yn dilyn y prisiaid a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2016.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbriso (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol.

NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2018. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Còd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol na'r gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 20 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler Nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbyniion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymadau aelod.

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r Gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbyniion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog perthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cynddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIŌAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

- iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad
Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol.

e) Trethiant

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

f) Costau rheoli

Nid yw'r Côt yn gofyn am unrhyw ddadansoddiad o gostau gweinyddol y gronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn cael tryloywder gwell, mae'r Cyngor yn cyhoeddi costau rheoli'r gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Costs*.

Costau gweinyddol

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol ar sail cronïadau. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiwnau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Telir am gostau cysylltiol rheoli, llety a gorbenion eraill o'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

Costau arolygu a llywodraethu

Cyfrifir am yr holl gostau arolygu a llywodraethu ar sail cronïadau. Telir am gostau staff, rheoli, llety a gorbenion eraill yn ymwneud ag arolygu a llywodraethu'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

Costau rheoli buddsoddiadau

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid. Yn ogystal roedd y Gronfa wedi negodi gyda Fidelity International y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad. Daeth y trefniant hwn i ben ar 30 Medi 2016, ac ers hynny mae'r ffi yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth.

Mae cost derbyn cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y Gronfa.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Datganiad asedau net

g) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw elw neu golled a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

- i) **Ecwiti**
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.
- ii) **Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog**
Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu prasio ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd cronïad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.
- iii) **Buddsoddiadau heb eu dyfynnu**
Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:
 - Mae stociau heb eu dyfynnu yn cynnwys buddsoddiadau cydgyfrannog mewn eiddo, is adeiladwaith, stociau dyled ac ecwiti preifat. Mae'r prisiad o'r cydgyfraniadau yma neu stociau a ddelir yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan y rheolwr buddsoddi neu endid cyfrifol a gynghorir fel pris uned neu stoc. Mae'r safonau prasio a ddilynir yn y prisiadau yma yn cadw at ganllawiau'r diwydiant neu at safonau a osodwyd yn nogfennau cyfansoddol y pwl neu'r cytundeb rheoli.
 - Caiff buddsoddiadau mewn eiddo heb eu dyfynnu eu prasio ar werth yr ased net neu ar bris unigol a gynghorir gan y rheolwr buddsoddi.
 - Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu prasio ar sail rhaniad y Gronfa o'r asedau net yn y Gronfa ecwiti preifat neu'r bartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfiad ag arweiniad SAARh. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat. Maent yn reddfól seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.

h) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cynrychioli'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balasau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian parod, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

i) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuo ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cywerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

j) Ymrwymadau ariannol

Mae'r Gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan SCC26, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 20).

l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 23).

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiladwaith yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac isadeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2018 yn £104 miliwn (£110 miliwn ar 31 Mawrth 2017).

Ymrwymadau'r gronfa bensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa bensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCCI9. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 19. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2018, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO (parhad)

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Ecwiti preifat ac is adeiladwaith	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn cael ei bennu’n unol â arweiniad y British Venture Capital Association. Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn y datganiadau ariannol yn £104 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

NODYN 7 – CYFRANIADAU

Yn ôl categori

2016/17		2017/18
£'000		£'000
52,439	Cyflogwyr	66,372
15,256	Gweithwyr/Aelodau	15,930
67,695		82,302

Yn ôl awdurdod

2016/17		2017/18
£'000		£'000
23,210	Cyngor Gwynedd	29,868
40,231	Cyrff eraill ar yr atodlen	48,301
1,514	Cyrff a ganiateir	1,674
2,215	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,957
252	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	206
219	Cyrff a benderfynir	242
54	Cronfa gaeedig*	54
67,695		82,302

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfa gaeedig.

Yn ôl cyfraniad

2016/17		2017/18
£'000		£'000
15,256	Cyfraniadau arferol gweithwyr	15,930
46,570	Cyfraniadau arferol cyflogwyr	47,186
5,869	Cyfraniadau adfer diffyg cyflogwyr	19,186
67,695		82,302

NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2016/17		2017/18
£'000		£'000
1,315	Trosglwyddiadau grŵp	0
4,578	Trosglwyddiadau unigol	4,360
5,893		4,360

NODYN 9 – BUDDION A DALWYD

Yn ôl categori

2016/17		2017/18
£'000		£'000
41,081	Pensiynau	42,708
11,093	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	9,670
1,808	Buddion marwolaeth – lwmp swm	1,533
53,982		53,911

Yn ôl awdurdod

2016/17		2017/18
£'000		£'000
15,233	Cyngor Gwynedd	15,454
25,701	Cyrff eraill ar yr atodlen	26,173
1,561	Cyrff a ganiateir	1,615
1,095	Cyrff cymunedol a ganiateir	812
173	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	42
58	Cyrff a benderfynir	70
10,161	Cronfa gaeedig	9,745
53,982		53,911

NODYN 10 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2016/17		2017/18
£'000		£'000
	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	
103	llai ad-daliadau treth	143
	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y	
11	wladwriaeth	5
3,856	Trosglwyddiadau unigol	2,158
3,970		2,306

NODYN 11 – COSTAU RHEOLI

2016/17		2017/18
£'000		£'000
1,242	Costau gweinyddol	1,261
10,343	Costau rheoli buddsoddiadau (Nodyn 13)	12,046
56	Costau arolygaeth a llywodraethu	60
11,641		13,367

Paratowyd y dadansoddiad hwn o gostau rheoli Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ystod y cyfnod yn unol â chanllawiau CIPFA.

NODYN 12 – COSTAU GWEINYDDOL, AROLYGIAETH A LLYWODRAETHU

2016/17		2017/18
£'000		£'000
	Costau gweinyddol	
486	Costau staff uniongyrchol	514
293	Costau uniongyrchol eraill	264
303	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	357
33	Ffioedd archwilio allanol	34
128	Ffioedd actiwaraid	92
1,243		1,261
	Costau arolygaeth a llywodraethu	
55	Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol	60
1,298		1,321

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 24.

NODYN 13 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2016/17		2017/18
£'000		£'000
10,258	Ffioedd rheoli	11,933
45	Ffioedd gwarchodaeth	50
3	Gwasanaeth monitro perfformiad	8
37	Ffioedd ymgynghoriaeth buddsoddi	55
10,343		12,046

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno.

Mae'r costau rheoli buddsoddiad uchod yn cynnwys £22,562 (2016/17 £322,972) mewn perthynas â ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad a delir i un o reolwyr buddsoddi'r Gronfa. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau (gweler Nodyn 16a).

NODYN 14 – INCWM BUDDSODDI

2016/17		2017/18
£'000		£'000
6,832	Difidendau ecwiti	7,662
1,239	Incwm ecwiti preifat	544
207	Is adeiladwaith	1,201
4,475	Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	5,256
133	Llog ar adneuron arian parod	492
12,886		15,155

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r nifer a chostau cyfnewid trafodion.

NODYN 15 – TRETHER AR INCWM

2016/17		2017/18
£'000		£'000
378	Treth ataliedig – ecwiti	252
378		252

NODYN 16 – BUDDSODDIADAU

2016/17		2017/18
£'000		£'000
	Asedau buddsoddi	
236,625	Llog sefydlog dychweliad absoliwt	292,050
345,284	Ecwiti	337,188
963,262	Buddsoddiadau ecwiti wedi'u cyfuno	961,611
142,448	Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	159,044
82,023	Ecwiti preifat	76,137
28,053	Is adeiladwaith	28,173
1,797,695		1,854,203
49,248	Adneuron arian parod	44,352
630	Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	5,432
1,847,573	Cyfanswm asedau buddsoddi	1,903,987
	Ymrwymadau buddsoddi	
(235)	Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	(4,690)
(235)	Cyfanswm ymrwymadau buddsoddi	(4,690)
1,847,338	Asedau buddsoddi net	1,899,297

Nodyn 16a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau

2017/18	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2017	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2018
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt	236,625	134,950	(79,950)	425	292,050
Ecwiti	345,284	79,717	(89,912)	2,099	337,188
Buddsoddiadau wedi'u cyfuno	963,262	4,840	(22,637)	16,146	961,611
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	142,448	13,488	(5,802)	8,910	159,044
Ecwiti preifat / Is adeiladwaith	110,076	15,913	(27,847)	6,168	104,310
	1,797,695	248,908	(226,148)	33,748	1,854,203
Adneuon arian parod	49,248			188	44,352
Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	630				5,432
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(235)				(4,690)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				7,822	
Asedau buddsoddi net	1,847,338			41,758	1,899,297

2016/17	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2016	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2017
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt	198,845	30,000	0	7,780	236,625
Ecwiti	269,784	73,681	(76,100)	77,919	345,284
Buddsoddiadau wedi'u cyfuno	746,944	15,347	(13,492)	214,463	963,262
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	157,734	18,373	(31,465)	(2,194)	142,448
Ecwiti preifat / Is adeiladwaith	81,540	29,118	(18,212)	17,630	110,076
	1,454,847	166,519	(139,269)	315,598	1,797,695
Adneuon arian parod	42,631			(387)	49,248
Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	383			(4)	630
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(64)			(1)	(235)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				7,110	
Asedau buddsoddi net	1,497,797			322,316	1,847,338

Cynhwysir costau trafodion, fel comisiwn, treth stamp a ffioedd trafodion eraill, yng nghost y pryniant a derbyniadau gwerthiant. Cyfanswm costau trafodion yn ystod y flwyddyn oedd £103,937 (2016/17 £171,393). Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau.

Nodyn 16b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau

31 Mawrth 2017 £'000			31 Mawrth 2018 £'000	
		Ecwiti		
37,453		DU wedi'u dyfynnu	35,413	
307,832		Tramor wedi'u dyfynnu	301,775	
		Cronfeydd wedi'u cyfuno		
236,625		Ymddiriedolaethau uned incwm sefydlog	292,050	
301,034		Ymddiriedolaethau uned y DU wedi eu dyfynnu	305,111	
306,567		Ymddiriedolaethau uned tramor	319,205	
355,661		Ymddiriedolaethau uned	337,295	
142,447		Ymddiriedolaethau uned eiddo wedi eu dyfynnu	159,044	
82,023		Ecwiti preifat	76,137	
28,053		Is adeiladwaith	28,173	
1,797,695			1,854,203	

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2017 £'000				Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2018 £'000		
	%				%	
601,837	32.6	BlackRock	618,768	32.6		
399,686	21.6	Fidelity	384,762	20.3		
236,632	12.8	Insight	292,053	15.4		
39,599	2.1	Lothbury	50,372	2.6		
110,076	6.0	Partners Group	104,310	5.5		
16,476	0.9	Threadneedle	18,149	1.0		
48,112	2.6	UBS	48,604	2.5		
394,920	21.4	Veritas	382,279	20.1		
1,847,338	100.0		1,899,297	100.0		

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun:

Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2017 £'000	% cyfanswm y Gronfa	Gwarantau	Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2018 £'000	% cyfanswm y Gronfa
355,661	19.08	Fidelity Institutional Select Global Equity	337,295	17.40
301,033	16.15	Aquila Life UK Equity Index Fund	305,110	15.74
236,625	12.69	Insight Umbrella Holdings	0	0
0	0	Insight LDI Solutions Plus Bonds	292,050	15.07
129,078	6.92	Aquila Life Global Dev Fundamental Fund	129,689	6.69

Nodyn 16c – Benthycia stoc

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) yn nodi y caniateir benthycia stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthycia unrhyw stoc.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodyn 17a – Dosbarthiad offerynnau ariannol

Mae polisiâu cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddsbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2017			Fel ar 31 Mawrth 2018		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Benthyciadau ac arian a dderbynnir	Costau ymrwymadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Benthyciadau ac arian a dderbynnir	Costau ymrwymadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol					
345,284			337,188		
1,199,887			1,253,661		
142,448			159,044		
82,023			76,137		
28,053			28,173		
	64,623			79,923	
	0			1,468	
	6,188			11,019	
1,797,695	70,811	0	1,854,203	92,410	0
Ymrwymadau ariannol					
		(4,273)			(8,638)
		(4,273)			(8,638)
1,797,695	70,811	(4,273)	1,854,203	92,410	(8,638)

Nodyn 17b - Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

31 Mawrth 2017		31 Mawrth 2018
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
Asedau ariannol		
315,598	Gwerth teg drwy elw a cholled	33,748
(392)	Benthyciadau a derbyniadau	188
315,206	Cyfanswm yr asedau ariannol	33,936
Ymrwymadau ariannol		
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymadau ariannol	0
0	Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	0
315,206	Asedau ariannol net	33,936

Nodyn 17c – Gwerth teg offerynnau ag ymrwymiadau ariannol

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymiadau ariannol fesul dosbarth o offeryn o'i gymharu â'u gwerth teg.

31 Mawrth 2017			31 Mawrth 2018	
Gwerth cario	Gwerth teg		Gwerth cario	Gwerth teg
£'000	£'000		£'000	£'000
Asedau ariannol				
1,120,845	1,797,695	Gwerth teg drwy elw a cholled	1,210,252	1,854,203
70,815	70,811	Benthyciadau a derbyniadau	92,372	92,410
1,191,660	1,868,506	Cyfanswm yr asedau ariannol	1,302,624	1,946,613
Ymrwymiadau ariannol				
(235)	(235)	Gwerth teg drwy elw a cholled	(4,675)	(4,690)
(4,038)	(4,038)	Cost ymrwymiadau ariannol	(3,948)	(3,948)
(4,273)	(4,273)	Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol	(8,623)	(8,638)
1,187,387	1,864,233	Asedau ariannol net	1,294,001	1,937,975

Nid yw'r Gronfa wedi ymrwymo i unrhyw warantau ariannol sydd angen cyfrifo amdanynt fel offerynnau ariannol.

Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario

Mae prisiad yr offerynnau ariannol wedi'i ddsbarthu'n dri lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1

Offerynnau ariannol Lefel 1 yw rhai ble mae eu gwerth teg wedi'i bennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rywmedigaethau cyfwerth. Mae cynhyrchion sydd wedi'u dosbarthu fel rhai Lefel 1 yn cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, gwarantau sefydlog wedi'u dyfynnu, gwarantau cysylltiedig â mynegai wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn cael eu harddangos am y pris a gynigwyd amdanynt. Mae gwerth y pris a gynigir am y buddsoddiad yn seiliedig ar ddyfyniad marchnad cynigion y farchnad stoc dan sylw.

Lefel 2

Mae offerynnau ariannol Lefel 2 yn rhai ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael; er enghraifft, pan fo offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad yw'n cael ei hystyried yn un weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg a ble mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbwn sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau data'r farchnad.

Lefel 3

Mae offerynnau ariannol Lefel 3 yn rhai ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau data'r farchnad. Gallai offerynnau o'r fath gynnwys buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfa o gronfeydd rhagfantoli, sy'n cael eu prisio gan ddefnyddio technegau prisio amrywiol sy'n gofyn am ddyfarniadau sylweddol wrth bennu rhagdybiaethau priodol.

Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario (parhad)

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o asedau ag ymrwymadau ariannol y gronfa pensiwn wedi'i grwpio i Lefelau 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel sy'n cael ei rhagweld fel gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2018	Pris y	Gan ddefnyddio	Gan ddefnyddio	Cyfanswm
	farchnad a	canfyddiadau	mewnbwn sylweddol	
	ddyfynnwyd	am y mewnbwn	ble na cheir	
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol				
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	332,498	1,318,419	203,286	1,854,203
Benthyciadau a derbyniadau	92,410	0	0	92,410
Cyfanswm yr asedau ariannol	424,908	1,318,419	203,286	1,946,613
Ymrwymadau ariannol				
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	0	(4,690)	0	(4,690)
Costau ymrwymadau ariannol	(3,948)	0	0	(3,948)
Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	(3,948)	(4,690)	0	(8,638)
Asedau ariannol net	420,960	1,313,729	203,286	1,937,975

Gwerth ar 31 Mawrth 2017	Pris y	Gan ddefnyddio	Gan ddefnyddio	Cyfanswm
	farchnad a	canfyddiadau	mewnbwn sylweddol	
	ddyfynnwyd	am y mewnbwn	ble na cheir	
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol				
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	345,285	1,302,735	149,675	1,797,695
Benthyciadau a derbyniadau	70,811	0	0	70,811
Cyfanswm yr asedau ariannol	416,096	1,302,735	149,675	1,868,506
Ymrwymadau ariannol				
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	0	(235)	0	(235)
Costau ymrwymadau ariannol	(4,038)	0	0	(4,038)
Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	(4,038)	(235)	149,675	(4,273)
Asedau ariannol net	412,058	1,302,500	149,675	1,864,233

Mae'r ffigurau ar 31 Mawrth 2017 wedi cael eu newid er mwyn cyd fynd gyda'r dull a defnyddiwyd ar 31 Mawrth 2018

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiaadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau fel ei fod yn cadw lefel risg y farchnad y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae rhaglen reoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ba mor anwadal yw'r marchnadoedd ariannol ac yn ceisio isafu'r effeithiau andwyol posib ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa yn nodi sut bydd hydaledd a risg yn cael eu rheoli mewn perthynas ag ymrwymiaadau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan roi ystyriaeth gyffredinol i lefel y risg yn y polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y Rheoliadau Buddsoddi) a'r polisi cyllido sydd wedi'i nodi yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, tra gwneud y mwyaf o'r enillion a geir wrth gymryd risg.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn codi o fuddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa ble bo ansicrwydd ynghylch eu pris yn y dyfodol. Mae pob buddsoddiad gwarantau yn cyflwyno risg o golli cyfalaf. Ac eithrio cyfranddaliadau a werthir am bris is, pennir y risg fwyaf sy'n deillio o offerynnau ariannol gan werth teg yr offerynnau ariannol. Mae'r colledion posib yn sgil cyfranddaliadau a werthir am bris is yn anghyfyngedig.

Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau a theclynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth y Gronfa fuddsoddi.

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn yn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2017/18.

Gan ddilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ar enillion ar fuddsoddiadau, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae newidiadau pris posib wedi cael eu pennu ar gyfer y gwahanol categorïau o asedau sy'n cael ei ddal gan y Gronfa. Mae'r cyfraddau i'w defnyddio ar gyfer categorïau asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

Math o ased	Newid posib yn y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018
	%	%
Ecwiti'r DU	15.8	16.8
Ecwiti Byd-eang	18.4	17.9
Ecwiti Preifat	28.5	28.3
Incwm Sefydlog	2.9	2.8
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	11.3	20.1
Eiddo	14.2	14.3
Arian	0.0	0.0
Y Gronfa Gyfan	12.8	12.6

Mae'r anweddolrwydd a nodir uchod yn gyson ag un gwyrriad safonol yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian tramor a chyfraddau llog, yn parhau'r un fath.

NODYN 18 – NATUR A GRADDAFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhreis y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2018 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti'r DU	340,524	16.8	397,732	283,316
Ecwiti Byd-eang	958,275	17.9	1,129,806	786,744
Ecwiti Preifat	76,137	28.3	97,684	54,590
Incwm sefydlog	292,050	2.8	300,227	283,873
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	28,173	20.1	33,837	22,511
Eiddo	159,044	14.3	181,787	136,300
Arian	44,352	0.0	44,352	44,352
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	1,898,555	12.6*	2,137,773	1,659,337

* Mae gwerth yr holl gronfa yn y tabl uchod yn seiliedig ar 12.6% yn hytrach na cyfanswm y math o asedau unigol.

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti'r DU	338,486	15.8	391,966	285,005
Ecwiti Byd-eang	970,060	18.4	1,148,552	791,569
Ecwiti Preifat	82,023	28.5	105,399	58,646
Incwm sefydlog	236,625	2.9	243,487	229,763
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	28,053	11.3	31,223	24,883
Eiddo	142,448	14.2	162,676	122,220
Arian	49,248	0.0	49,248	49,248
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	1,846,943	12.8*	2,083,352	1,610,534

* Mae gwerth yr holl gronfa yn y tabl uchod yn seiliedig ar 12.8% yn hytrach na cyfanswm y math o asedau unigol.

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2018 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2018 £'000
Arian a chyfwerthoedd arian	15,375	37,038
Balansau arian parod	49,248	44,352
Gwarantau llog sefydlog	236,625	292,050
Cyfanswm	301,248	373,440

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2018 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
Arian a chyfwerthoedd arian	37,038	370	(370)
Balansau arian parod	44,352	444	(444)
Gwarantau llog sefydlog*	292,050	2,658	(2,658)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	373,440	3,472	(3,472)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	15,375	154	(154)
Balansau arian parod	49,248	492	(492)
Gwarantau llog sefydlog*	236,625	(1,538)	1,538
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	301,248	(892)	892

Minimol fyddai'r effaith wedi bod o newid 1% mewn cyfraddau llog ar y llog a dderbyniwyd gan mai 0.43% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £127,666 am y flwyddyn.

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar warantau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nad yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£UK). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae gan y Gronfa ymrwymadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith mewn arian tramor, (£214 miliwn a \$88.6 miliwn). Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 25. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymadau ers 2005 felly mae'r ymrwymadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r Gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2018 ac fel ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol:

Agored i newidiadau mewn arian – math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2018 £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	970,060	958,275
Incwm Sefydlog byd-eang	236,625	292,050
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd)	110,076	104,310
Eiddo tramor	3,636	1,808
Arian tramor	0	1,468
Cyfanswm yr asedau tramor	1,320,397	1,357,911

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Ystyrir bod newid o 10% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y Gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2018. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2017 oedd 10%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2018 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2018 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	958,275	1,054,103	862,448
Incwm Sefydlog byd-eang	292,050	321,255	262,845
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith)	104,310	114,741	93,879
Eiddo tramor	1,808	1,989	1,628
Arian tramor	1,468	0	0
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,357,911	1,492,088	1,220,800

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	970,060	1,067,066	873,054
Incwm Sefydlog byd-eang	236,625	260,288	212,963
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith)	110,076	121,084	99,068
Eiddo tramor	3,636	4,000	3,273
Arian tramor	0	0	0
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,320,397	1,452,438	1,188,358

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o greddyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i beth risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

NODYN 18 – NATUR A GRADDAFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Rheolwr Buddsoddi	Canran o'r Portffolio
BlackRock	29.5%
Fidelity	19.0%
Veritas	19.0%
Insight	15.0%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.0%
Partners Group	7.5%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisiâu yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adnau Arian, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwaged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwaged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwaged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Efen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2018 oedd £37.0m (£15.4m ar 31 Mawrth 2017).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuron y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddsbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddiffygdlu neu adneuron nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 27.

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaid pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 26 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaid eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir

hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraid yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir teirblynyddol.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymadau i dalu pensiynwyr; ac i fodloni ymrwymadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £202m, sy'n cynrychioli 10.5% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2017: £198m, a oedd yn cynrychioli 10.6% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2017.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei Gronfa Bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2016.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido, yr Awdurdod Gweinyddu, gafodd ei adolygu fel rhan o Brisriad 2016.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y Gronfa dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd a buddion holl aelodau/dibynyddion wrth iddynt ddod daladwy.
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog os yw'n rhesmol i wneud hynny.
- lleihau'r cyfraniadau ariannol tymor hir mae'r cyflogwyr yn dalu i'r Cynllun drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau a rhwymedigaethau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac elw.
- i adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwahanol gyflogwyr i bennu cyfraddau cyfraniadau drwy gael strategaeth cyllido clir a thryloyw sy'n dangos sut y gall pob cyflogwr gyfarfod a'u rhwymedigaethau dros y blynyddoedd i ddod.
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r Dreth Cyngor yn sgil cyflogwyr yn diffyg dalu ei rhwymedigaethau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi yn is na'r gyfradd ddamcaniaethol sydd ei hangen i sicrhau bod eu cyfran nhw o'r Gronfa yn dychwelyd i gael ei ariannu'n llawn dros 20 mlynedd os yw'r rhagdybiaethau prisio yn cael eu cadarnhau. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna siawns gwell na 66% o hyd y bydd y Gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 20 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prasiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prasiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2016. Datgelodd y prasiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £1,525 miliwn ar 31 Mawrth 2016, yn ddigon i dalu 91% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y diffyg ym mhrisiad 2016 oedd £145 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prasiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol a'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 eu pennu yn unol a pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio dyddiedig 31 Mawrth 2017.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Dull

Aseswyd yr ymrwymiadau drwy ddefnyddio dull buddion cronodig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad priso, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymiadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa o'u gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2016 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2016
Cyfradd disgownt	3.9%
Cynnydd mewn cyflog	2.1%
Cynnydd mewn pensiwn	2.1%

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwylidig oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y *Gronfa* gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2013, sy'n tybio bod y gyfradd bresennol o welliannau wedi cyrraedd y brig a bydd yn cydgyfeirio at gyfradd hirdymor o 1.25% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwylidig oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	22.0	24.2
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2016)	24.0	26.4

Mae copiau o adroddiad Prisiad 2016 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.org.uk

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2016

Ers y prisiad ffurfiol diwethaf, mae'r gwir ddychweliadau ar fondiau wedi disgyn gan gynyddu gwerth y rhwymedigaethau. Effaith hyn wedi cael ei gorchuddio gan enillion cryf yr asedau. Mae'r ddau ddigwyddiad gyda maint tebyg ynglyn a effaith ar y sefyllfa cyllido ar 31 Mawrth 2018.

Cynhelir y prisiad actiwaraidd nesaf fel ar 31 Mawrth 2019. Adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido ar yr un adeg.

NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynnyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae’r actiwari wedi diweddarau’r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o’r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 19) a hefyd mae wedi’u defnyddio i ddarparu’r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae’r actiwari wedi priso buddion salwch a marwolaeth yn unol ag SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi’u haddo ar 31 Mawrth 2018 ac 2017, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018
Rhagdybiaeth	£m	£m
Aelodau Gweithredol	1,214	1,378
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	246	385
Cyfradd ddisgownt	514	718
Cyfanswm	1,974	2,481

Fel y nodir uchod mae’r ymrwymadau uchod wedi’u cyfrifo’n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau’r prisiad cyllido teirblynyddol a gynhaliwyd yn 2016 (gweler Nodyn 19) gan fod SCC 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy’n adlewyrchu cyfraddau’r farchnad.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018
Rhagdybiaeth	%	%
Chwyddiant/cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.4	2.4
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	2.4	2.4
Cyfradd ddisgownt	2.6	2.7

Defnyddiwyd yr un dybiaeth hirhoedledd fel ar gyfer asesu’r sefyllfa cyllido fel y dangosir yn Nodyn 19 uchod.

Mae’r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008.

Mae’r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi’u nodi isod:

Sensitifrwydd i’r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy’n gorffen 31 Mawrth 2018	Amcan % y Cynnydd mewn Rhwymedigaethau	Amcan Swm Ariannol
	%	£m
0.5% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant pensiwn	8	208
0.5% y.f. o gynnydd mewn cyflog	2	52
0.5% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	11	278

Y prif ragdybiaeth demograffig yw’r tybiaeth hirhoedledd. At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu y rhwymedigaeth.

NODYN 21 – ASEDAU CYFREDOL

2016/17		2017/18
£'000		£'000
820	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	842
2,845	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	2,508
1,944	Amrywiol ddyledwyr	2,238
5,609	Cyfanswm dyledwyr	5,588
15,375	Arian	37,038
20,984	Cyfanswm	42,626

Dadansoddiad o ddyledwyr

2016/17		2017/18
£'000		£'000
2,352	Cyngor Gwynedd	2,111
560	Cyrff llywodraeth ganolog	713
1,209	Awdurdodau lleol eraill	1,074
3	Cyrff GIG	7
1,485	Endidau ac unigolion eraill	1,683
5,609	Cyfanswm	5,588

NODYN 22 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

2016/17		2017/18
£'000		£'000
2,591	Amrywiol greddywyr	2,370
282	Gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy (rhai sy'n ymadael)	0
1,216	Buddion sy'n daladwy	1,578
4,089	Cyfanswm	3,948

Dadansoddiad o greddywyr

2016/17		2017/18
£'000		£'000
1,051	Cyngor Gwynedd	1,317
37	Cyrff llywodraeth ganolog	70
138	Awdurdodau Lleol eraill	69
58	Cyrff GIG	0
2,805	Endidau ac unigolion eraill	2,492
4,089	Cyfanswm	3,948

NODYN 23 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2017 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2018 £'000
Clerical Medical	3,349	3,506
Equitable Life	229	226
Standard Life	53	70
Cyfanswm	3,631	3,802

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

	2016/2017 £'000	2017/2018 £'000
Clerical Medical	561	591
Equitable Life	0	0
Standard Life	0	13
Cyfanswm	561	604

NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,056,813 (£1,008,589 yn 2016/17) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa pensiwn a chyfrannodd £29.87m tuag at y Gronfa yn 2017/18 (£23.21m yn 2016/17). Ar ddiwedd y flwyddyn £2.11m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa (gweler Nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2018 a £1.32m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor (gweler Nodyn 22) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bedwar cyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2017/18, derbyniodd y Gronfa llog o £127,666 (£132,567 yn 2016/17) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd tri aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2017/18 (yr aelodau pwyllgor J.B. Hughes, P. Jenkins a'r diweddar T.O. Edwards). Yn ogystal, roedd aelodau'r pwyllgor S. W. Churchman, D. Cowans, S. Glyn, J. B. Hughes, A.W.Jones, H.E. Jones, W.T. Owen a P. Read yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2017/18 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S. Warnes). Yn ogystal, roedd aelodau Bwrdd A.W. Deakin, A.L Lloyd Evans, O. Richards and H. Trainor yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Staff Rheoli Allweddol

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn eithrio awdurdodau lleol rhag gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24, ar y sail bod y gofynion datgelu ar gyfer tal swyddogion a lwfansau aelodau yn y Cod yn bodloni gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Gweler y dadleniadau gofynnol yng nghyfrifon Cyngor Gwynedd.

NODYN 25 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau €'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2017 €'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2018 €'000
P.G. Direct 2006	20,000	776	776
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	3,372	2,712
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	15,894	12,133
P.G. Direct 2012	12,000	1,181	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	4,638	4,109
P.G Direct 2016	50,000	34,373	29,374
Cyfanswm Ewro	214,000	65,671	55,722
	\$'000	\$'000	\$'000
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	1,623	1,225
P.G Secondary 2015	38,000	32,723	29,150
P.G Direct Infrastructure 2015	43,600	35,219	30,896
Cyfanswm Doleri	88,600	69,565	61,271

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 26 - ASEDAU WRTH GEFN

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa pensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdalu.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

b) Amhariad yr adneuoŷn ym Manc Gwlad yr Iâ

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r Gronfa Bensiwn. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2018.

NODYN 28 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN

Cynhyrchir Adroddiad Flynyddol ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Egwyddorion Buddsoddi

Datganiad Strategaeth Gyllido

Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfriad a'r Drefn Llywodraethu

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk ar dudalen buddsoddiadau neu drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.